

# Cynllun Ysgolion Creadigol Arweiniol

## Llawlyfr

Medi 2020

Cyngor Celfyddydau Cymru
Arts Council of Wales

ARIENNIR GAN Y LOTERI
LOTTERY FUNDED

Ariennir yn Rhannol gan Lywodraeth Cymru
Part Funded by Welsh Government

*Dewch i ddathlu!* Dysgu Creadigol drwy'r Celfyddydau, 2019

# Cynnwys


**Cyflwyniad** 4

Beth yw'r Cynllun Ysgolion Arweiniol Creadigol? 5

Sut beth yw hyn yn ymarferol? 5

Sut i ddefnyddio'r llawlyfr hwn 6

**Adran 1: Eich gwaith fel Ysgol Greadigol Arweiniol** 7

Disgrifiad cyffredinol 8

Sut mae'r cynllun yn gweithio 8

Manteision 9

Ymrwymiadau 11

Cynllunio a gwerthuso 13

Datblygiad y rhaglen 15

Systemau cyflwyno prosiect a rheoli prosiect 16

Dathlu a rhannu llwyddiannau 21

**Adran 2: Gyda phwy byddwch chi'n gweithio fel Ysgol Greadigol Arweiniol** 23

Cydlynydd Ysgol Ysgolion Creadigol Arweiniol 24

Yr Asiant Creadigol 26

Ymarferwyr Creadigol 33

Disgyblion 36

Staff ysgol a chymuned yr ysgol 38

Arweinyddiaeth a'r uwch dîm arweinyddol 38

Athrawon sy'n cymryd rhan 38

Athrawon a staff eraill 40

Cynnwys rhieni ac aelodau'r gymuned 40

Partneriaid pwysig eraill 41

Consortia Addysg Rhanbarthol ac Ymgynghorwyr Her 41

Estyn 42

Tîm Ysgolion Creadigol Arweiniol 42

**Atodiad i Adran 2: Tabl crynhoi rolau a chyfrifoldebau** 43

Trosolwg o rolau a chyfrifoldebau mewn Ysgolion Creadigol Arweiniol 44

**Adran 3: Nodweddion ymarferol bod yn Ysgol Greadigol Arweiniol** 48

Rheoli cyllideb 49

Recriwtio a dewis Ymarferwyr Creadigol 49

Cyfrifoldebau cyfreithiol 54

Ffotograffau a chaniatâd 56
Iechyd a diogelwch, ac asesu risg 57
Cwynion 57
Rhannu gwybodaeth 58
Rhoi cyhoeddusrwydd i'ch gwaith fel Ysgol Greadigol Arweiniol 58
Brandio ac arddull tŷ 60
Hawliau eiddo deallusol 60
**Adran 4: Diffiniadau 62**
Creadigrwydd 63
**Adran 5: Cyhoeddiadau ac adnoddau 69**

hyderus o ran anabledd
CYFLOGWR

Mae'r Cyngor yn ymrwymedig i ddarparu gwybodaeth mewn print bras, Braille, Arwyddeg Prydain, Hawdd eu Darllen ac ar awdio. Ceisiwn ddarparu gwybodaeth mewn ieithoedd ar wahân i'r Gymraeg a'r Saesneg ar gais.

# Cyflwyniad

Croeso i'r Cynllun Ysgolion Creadigol Arweiniol. Gobeithio y cewch eich cyffroi gan y cyfleoedd newydd y bydd yn eu cynnig i'ch ysgol ac i'ch athrawon a'ch dysgwyr. Mae'r cynllun yn un o gonglfeini allweddol Dysgu Creadigol drwy'r Celfyddydau – cynllun gweithredu ar gyfer Cymru. Caiff y cynllun, a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2015, ei ariannu ar y cyd gan Gyngor Celfyddydau Cymru a Llywodraeth Cymru.

Gall ysgolion ddechrau ar daith gofiadwy a fydd yn caniatáu ichi ymchwilio i greadigrwydd ac ysgogi newidiadau sylfaenol yn eich ffordd o weithio. Byddwch yn ymuno â miloedd o weithwyr proffesiynol o'r un anian sy'n ymroi i helpu dysgwyr i gyflawni eu potensial creadigol a gwneud eu gorau posibl ym mhob maes dysgu a datblygu.

## Beth yw'r Cynllun Ysgolion Arweiniol Creadigol?

Nod y Cynllun Ysgolion Arweiniol Creadigol yw hybu ffyrdd newydd o weithio yn eich ysgol, gan roi cyfle i chi ddatblygu rhaglen ddysgu arloesol a phwrpasol sydd â'r nod o weddnewid ansawdd addysgu a dysgu. Mae'n ymwneud â'ch ysgol chi a'r heriau dysgu penodol rydych chi'n eu hwynebu. Fel Ysgol Arweiniol Greadigol, bydd pobl, sgiliau ac adnoddau creadigol ar gael i'ch cynorthwyo chi i fynd i'r afael â'r heriau hyn.

Mae'r cynllun yn defnyddio technegau addysgu a dysgu datblygedig sydd wedi'u cynllunio'n benodol i fod yn ymarferol ac yn berthnasol i'ch gofynion cwricwlwm penodol. Mae'r technegau hyn yn cael eu llywio gan ymchwil helaeth o bob cwr o'r byd i'r hyn sy'n gwneud ysgol sydd â perfformiad uchel.

Mae Ysgolion Creadigol Arweiniol yn meithrin ac yn datblygu creadigrwydd dysgwyr fel eu bod yn cyflawni eu potensial, yn tyfu'n unigolion cyflawn ac yn cael eu paratoi â sgiliau bywyd. Rydym ni eisiau gwneud yn siŵr bod plant a phobl ifanc yng Nghymru yn gallu cwrdd ag anghenion yr economi a ffynnu o fewn amgylchedd cynyddol gystadleuol bywyd bob dydd, ac mewn byd sy'n newid yn gyflym.

Credwn nad yw creadigrwydd yn sgil sydd wedi'i gyfyngu i'r celfyddydau; yn hytrach, mae'n allu ehangach i gwestiynu, llunio cysylltiadau a mabwysiadu ymagwedd arloesol a dychmygus at ddatrys problemau. Dyma'r sgiliau y mae cyflogwyr heddiw yn galw amdanynt. Credwn hefyd fod cysylltu plant a phobl ifanc â chynnig diwylliannol amrywiol a chyfoethog – eu cysylltu â gwaith yr artistiaid, yr unigolion creadigol proffesiynol a'r mudiadau yn sectorau'r celfyddydau, diwylliant, treftadaeth a'r sector creadigol – yn hollbwysig ar gyfer ehangu gorwelion a chreu cyfleoedd.

## Sut beth yw hyn yn ymarferol?

Mewn Ysgolion Creadigol Arweiniol, mae disgyblion, athrawon ac unigolion creadigol proffesiynol yn cydweithio i gynllunio a gweithredu prosiect neu brosiectau creadigol, myfyrio arnynt a'u gwerthuso. Mae'n hwyluso proses lle y mae'r holl bartneriaid yn cydweithio i

ddatblygu'r dysgu ar y cyd. Mae'n ategu dysgu sy'n seiliedig ar ymholi, myfyrio parhaus a gwerthuso manwl, gan arwain at arfer cynaliadwy, wedi'i ymwreiddio.

Mae sut olwg sydd ar yr ymagwedd hon mewn ysgolion ar ffurf prosiectau yn amrywio'n fawr, oherwydd bwriedir i bob prosiect fod yn ymateb unigol i anghenion pob ysgol. Nodwedd ddiffiniol allweddol prosiect yw'r bartneriaeth gydweithredol rhwng unigolion creadigol proffesiynol, staff yn yr ystafell ddosbarth a phobl ifanc, a'r ffyrdd y mae'r bartneriaeth hon yn helpu i ddod â'r cwricwlwm yn fyw, gan gynnig ffyrdd newydd i ddysgwyr ymgysylltu ym mhob Maes Dysgu a Phrofiad.

Mae prosiectau Ysgolion Creadigol Arweiniol yn caniatáu amser ar gyfer cynllunio manwl, cyflwyno ar y cyd a myfyrio. Yn bwysicach fyth, gallant fod yn fwy gweithgar a hwyliog na gweithgareddau arferol y cwricwlwm ac, wrth wraidd y broses, rhoddant fwy o gyfle i ddisgyblion wneud penderfyniadau.

## Sut i ddefnyddio'r llawlyfr hwn

Lluniwyd Llawlyfr Cynllun Ysgolion Creadigol Arweiniol fel y gallwch fynd a dod ato yn ôl eich anghenion.

Mae'r adran gyntaf yn amlinellu sut mae'r cynllun yn gweithio. Mae'r adrannau canlynol yn disgrifio rolau pobl a grwpiau eraill y byddwch chi'n gweithio â nhw. Mae'r adrannau olaf yn delio â'r nodweddion ymarferol, fel rheoli cyllideb a ffyrdd o roi cyhoeddusrwydd i'ch gwaith fel Ysgol Greadigol Arweiniol.

Ar ddiwedd y llawlyfr hwn, mae rhestr o ddiffiniadau, cyhoeddiadau ac adnoddau defnyddiol i'w darllen a myfyrio arnynt.

Mae croeso i chi lungopïo neu lawrlwytho ac argraffu rhannau o'r llawlyfr hwn os oes arnoch angen eu rhannu gyda chydweithwyr neu at unrhyw ddibenion eraill.

# Adran 1: Eich gwaith fel Ysgol Greadigol Arweiniol

## Disgrifiad cyffredinol

Mae'r cynllun yn cefnogi gwaith gydag ysgolion dros gyfnod o ddwy flynedd academaidd, i archwilio sut y gall addysgu a dysgu creadigol wella'u harfer ac ysgogi newid cynaliadwy mewn ymagweddau at addysgu a dysgu. Mae ysgolion a recriwtiwyd i'r cynllun wedi dangos ymrwymiad i werthfawrogi datblygu sgiliau creadigol dysgwyr a defnyddio creadigrwydd i ategu eu gweledigaeth a helpu i gyflawni blaenoriaethau datblygu'r ysgol.

Yn ystod pob prosiect, bydd eich ysgol yn penderfynu ar ffocws penodol i'ch rhaglen waith sy'n cysylltu â blaenoriaethau datblygu'ch ysgol.

## Sut mae'r cynllun yn gweithio

Man cychwyn y Cynllun Ysgolion Creadigol Arweiniol yw'r gred bod addysgu yn broffesiwn creadigol yn ei hanfod a bod athrawon wedi hen arfer â dod o hyd i atebion creadigol i heriau cymhleth. Trwy gyplysu sgiliau ategol Ymarferwyr Creadigol ac athrawon, mae Ysgolion Creadigol Arweiniol yn helpu i roi rhyddid i greadigrwydd pawb sydd ynghlwm, fel bod ymagweddau newydd a deniadol at addysgu a dysgu yn cael eu datblygu trwy brosesau cydweithredol.

Mae'r Cynllun Ysgolion Creadigol Arweiniol yn canolbwyntio ar ysgogi trafodaeth hirdymor am addysgu a dysgu creadigol, a sut gall ysgolion ddod yn amgylcheddau dysgu creadigol effeithiol. Caiff ysgolion eu hannog i archwilio'n fanwl eu ffordd o ddatblygu'r amodau lle y gall creadigrwydd ffynnu. Bydd cyflymder newid yn wahanol ym mhob ysgol, gyda myrdd o ddylanwadau a galwadau yn ei lywio. Weithiau, mae rhaglenni newid creadigol yn arwain at newidiadau cyflym a dramatig yn niwylliant ysgol ac yn llwyr drawsnewid ei hethos a'i hymagwedd. Yn fwy cyffredin, mae'r newidiadau'n digwydd yn raddol, gan ddigwydd dros amser i fod yn ymagwedd sydd wedi ymwreiddio.

Mae ymagwedd y Cynllun Ysgolion Creadigol Arweiniol yn unigryw:

- mae'n dechrau gyda Chynllun Datblygu'r Ysgol – cysylltu datblygiad y prosiect a'r rhaglen yn agos â blaenoriaethau rydych chi wedi'u hamlygu;
- mae'n caniatáu amser ar gyfer cynllunio manwl, priodol i sicrhau bod prosiectau'n berthnasol ac wedi'u seilio ar anghenion eich ysgolion a'ch dysgwyr;
- mae'n hwyluso prosesau lle y gall pobl ifanc, athrawon ac unigolion creadigol proffesiynol weithio ynghyd fel datblygwyr dysgu ar y cyd;
- mae'n brocera ac yn cefnogi perthynas hirdymor rhwng pobl ifanc, athrawon ac unigolion creadigol proffesiynol; ac

- mae’n ategu gwerthuso a myfyrdod manwl, gan arwain at arfer cynaliadwy, sydd wedi ymwreiddio.

Mae prosiectau llwyddiannus yn cynnwys ystod eang o Ymarferwyr Creadigol o amrywiaeth o broffesiynau creadigol. Diolch i’r cyfuniad hwn o bobl broffesiynol, gall prosiectau gael eu cynllunio i apelio at amrywiaeth eang o ddiddordebau ac arddulliau dysgu.

Felly, trwy weithio gydag unigolion creadigol proffesiynol fel Ysgol Greadigol Arweiniol, byddwch:

- yn archwilio sut gall ymagweddau newydd at addysgu a dysgu weddnewid deilliannau dysgwyr;
- yn datblygu creadigrwydd dysgwyr ac athrawon;
- yn darganfod ffyrdd newydd o ysbrydoli a symbylu dysgwyr ac ennyn eu diddordeb yn y cwricwlwm;
- yn cynnig cyfleoedd i ddysgwyr lunio eu dysgu ar y cyd a chymryd cyfrifoldeb amdano;
- yn darganfod ymagweddau creadigol at lythrennedd, rhifedd a chau’r bwlch cyrhaeddiad rhwng dysgwyr sy’n gymwys i gael prydau ysgol am ddim a’u cyfoedion;
- yn ymwreiddio newidiadau mewn arferion dysgu gan arwain at effaith gynaliadwy;
- yn rhoi’r celfyddydau a chreadigrwydd wrth wraidd bywyd yr ysgol; ac
- yn cael cydnabyddiaeth am eich ymrwymiad i wella trwy addysgu a dysgu creadigol a'r celfyddydau.

## Manteision

Fel Ysgolion Creadigol Arweiniol, cewch y manteision canlynol:

### Cyllid

Bydd ysgolion yn cael grant o £10,000 wedi’i rannu dros ddwy flynedd academaidd. Ar ôl y flwyddyn gyntaf, bydd yn rhaid i ysgolion ddangos eu bod wedi bodloni gofynion y cynllun a bod ganddynt gynllun eglur ar gyfer y cam nesaf o’u cyfranogiad.

Bydd y cyllid hwn yn helpu Ymarferwyr Creadigol proffesiynol i weithio gyda chi, i ddatblygu rhaglen gyda ffocws ar ddysgu creadigol ar gyfer grŵp penodol o ddisgyblion a dysgwyr ac i

greu cyfleoedd datblygu proffesiynol i'r tîm staff ehangach. Trwy adeiladu ar eich arbenigedd presennol yn yr ysgol, bydd y cyllid yn creu lle, amser ac adnoddau i roi cynnig ar syniadau newydd, cymryd risgiau ac ymestyn arfer.

| Cyfle Ysgolion Creadigol Arweiniol | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | Blynyddol | | | Cyfanswm Grant 2 Flynedd |
| | **Grant** | **Cyllid partneriaeth** (rhaid i ysgolion gyfrannu o leiaf 25% o'r grant) | Cyfanswm cost y prosiect | |
| **Pob ysgol** | £5,000 | £1,250 | £6,250 | £10,000 |

Mae eich ysgol wedi ymrwymo i gyfrannu o leiaf 25% o gyfanswm y grant. Gall hwn ddod o arian o gyllideb eich ysgol a/neu grantiau eraill (er enghraifft eich Grant Gwella Addysg neu, os yw'n berthnasol, Grant Amddifadedd Disgyblion – gweler isod) a gall gynnwys:

- y costau cyflenwi a gewch pan fydd athrawon sy'n cymryd rhan yn mynychu digwyddiadau ymsefydlu a rhwydweithio deuddydd y Cynllun Ysgolion Creadigol Arweiniol; a

- chost amser eich Cydlynydd Ysgol (oddeutu 10 diwrnod) yn gweithio i gefnogi eich gwaith fel Ysgol Greadigol Arweiniol.

Gallech ddewis ymestyn eich gwaith prosiect trwy gynyddu cyfraniad ariannol yr ysgol i fwy na 25% o gyfanswm y grant. Gellir defnyddio ein grant dim ond i dalu Ymarferwyr Creadigol proffesiynol i weithio yn yr ysgol ar eich prosiect Ysgol Greadigol Arweiniol ac i dalu am gost deunyddiau. Bydd ffi o £250 y dydd yn cael ei dalu i Ymarferwyr Creadigol. Dylid cytuno ar dreuliau ychwanegol, fel costau teithio, yn y contract.

## Amser Asiant Creadigol

Bydd eich ysgol yn cael 10 diwrnod o gymorth gan arbenigwr a elwir yn Asiant Creadigol bob blwyddyn academaidd.

Bydd Cyngor Celfyddydau Cymru yn contractio Asiantwyr Creadigol ac yn eu talu'n uniongyrchol. Byddant yn paru Asiant Creadigol â'ch ysgol.

### Datblygiad Proffesiynol o Safon Uchel

Ein man cychwyn yw'r gred bod addysgu yn broffesiwn creadigol yn ei hanfod. Rydym ni'n cydnabod y sgiliau creadigol sydd gan lawer o athrawon a'u bod wedi hen arfer â dod o hyd i atebion creadigol i heriau. Nod y Cynllun Ysgolion Creadigol Arweiniol yw adeiladu ar y sgiliau presennol yn eich ysgol. Hefyd, bydd yn cynorthwyo eich athrawon i ennill sgiliau newydd, hybu datblygiad sgiliau creadigol yn yr ysgol a datblygu creadigrwydd yn eu harfer eu hunain. Mae'r cynllun yn cynnwys rhaglen hyfforddi ysbrydoledig ac ymarferol y bydd eich athrawon a'ch Cydlynydd Ysgol sy'n cymryd rhan yn ei mynychu i gefnogi eu dealltwriaeth o ddysgu creadigol a datblygu sgiliau creadigol.

Byddwn yn galluogi Ysgolion Creadigol Arweiniol i rwydweithio â'i gilydd ac ysgolion eraill sydd â diddordeb mewn dysgu ac addysgu creadigol. Bydd hyn yn cynnig cyfleoedd i'ch ysgol rannu arfer a rhwydweithio â chydweithwyr o ysgolion eraill.

Yn ogystal, byddwn yn eich annog chi i gydweithio ac arddangos eich arfer yn y Parth Dysgu Creadigol ar Hwb, platfform digidol ar gyfer dysgu ac addysgu yng Nghymru. Bydd yn cynnwys amrywiaeth eang o adnoddau i gefnogi Ysgolion Creadigol Arweiniol, gan gynnwys enghreifftiau o arfer gorau.

### Proffil cenedlaethol

Bydd gwaith Ysgolion Creadigol Arweiniol yn cyfrannu at y corff cynyddol o wybodaeth am ddatblygu arfer dysgu creadigol cynaliadwy. Mae'r Cynllun Ysgolion Creadigol Arweiniol yn annog pawb sy'n cymryd rhan ynddo i ddatblygu a rhannu gwybodaeth â chydweithwyr yn eu hysgol, a chydag ysgolion eraill yn lleol ac yn genedlaethol.

Rydym ni'n gobeithio cael cyfle i Ysgolion Arweiniol Creadigol gyfarfod i rannu arfer da a chodi proffil dysgu creadigol ar draws ysgolion yng Nghymru.

## Ymrwymiadau

Mae Ysgolion Creadigol Arweiniol yn ymuno â'r rhaglen ar sail eu hymrwymiad i ddatblygu a dylanwadu ar arfer, a'u gallu i reoli'r rhaglen yn effeithiol. Mae eich ymrwymiadau wedi'u hamlinellu isod.

### Yr ymrwymiad i ddatblygu arfer a thrawsnewid eich ysgol

Bydd Ysgolion Arweiniol Creadigol yn ymrwymo i:

- gynhyrchu, trwy gydweithio, syniadau newydd sy'n ategu addysgu a dysgu creadigol, a gweithio mewn partneriaeth, gan helpu i wella cyrhaeddiad, cyflawniad a deilliannau i ddysgwyr;

- cymryd rhan mewn monitro a gwerthuso'r prosiect a'r rhaglen;

- cynnwys athrawon a dysgwyr fel partneriaid gweithgar a chyd-lunwyr dysgu wrth gynllunio, cyflwyno a gwerthuso eich gwaith prosiect.

### Yr ymrwymiad i ddylanwadu ar arfer

Bydd Ysgolion Arweiniol Creadigol yn ymrwymo i:

- sefydlu Rhwydwaith Dysgu Proffesiynol i rannu a dylanwadu ar arfer yn eu hysgol; a

- chwarae rhan weithgar yn nigwyddiadau rhannu a rhwydweithio y Cynllun Ysgolion Creadigol Arweiniol.

### Yr ymrwymiad i ddarganfod adnoddau, amser a gallu i reoli'r rhaglen yn effeithiol

Bydd Ysgolion Arweiniol Creadigol yn ymrwymo i:

- gyfrannu o leiaf 25% o'r grant y mae Cyngor Celfyddydau Cymru yn ei gynnig. Gall y cyfraniad hwn gynnwys: arian o gyllideb yr ysgol; y costau cyflenwi yr eir iddynt pan fydd athrawon sy'n cymryd rhan yn mynychu digwyddiadau hyfforddiant a rhwydweithio y Cynllun Ysgolion Creadigol Arweiniol; cost amser eich Cydlynydd Ysgol. Os bydd eich grŵp targed o ddysgwyr yn cynnwys disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim yn unig, neu os gallwch ddangos drwy weithgarwch eich prosiect y bydd y disgyblion hynny yn elwa'n anghymesur, fe allech ystyried defnyddio'ch Grant Amddifadedd Disgyblion i gyfrannu;

- rhoi cymorth gweithgar i'r cynllun gan y pennaeth a'r uwch arweinwyr, wedi'i arddangos trwy gymryd rhan reolaidd yn y cynllun mewn rôl arweiniol, e.e. cymryd rhan mewn sgyrsiau cynllunio gydag Asiantwyr Creadigol, mynychu cyfarfodydd a digwyddiadau rhwydweithio;

- Dynodi Cydlynydd Ysgolion Creadigol Arweiniol. Fel arfer, bydd y Cydlynydd yn aelod o'r uwch dîm arweinyddol, gydag amser wedi'i neilltuo iddo i gydlynu, dylanwadu a gwneud penderfyniadau. Gall ysgol ddadlau achos dros enwebu athro nad yw'n aelod o'r uwch dîm arweinyddol ar hyn o bryd i fod yn Gydlynydd Ysgol. Mewn achosion o'r fath, disgwylir bod yr athro'n cael ei ddatblygu'n arweinydd ar gyfer y dyfodol a bod yr ysgol wedi penderfynu bod y Cynllun Ysgolion Creadigol Arweiniol yn cynnig cyfle i'r athro dan sylw ddatblygu'i sgiliau arweinyddol. Yn gyffredinol, byddai disgwyl i'r athro fynychu a chymryd rhan yng nghyfarfodydd yr uwch arweinwyr;

- rhoi amser i'r Cydlynydd Ysgolion Creadigol Arweiniol gyflawni ei gyfrifoldebau. Rhagwelir y bydd angen i Gydlynydd Ysgol ymrwymo oddeutu 10 diwrnod a bydd hyn yn cynnwys cymryd rhan yn rhaglen hyfforddiant y Cynllun Ysgolion Creadigol Arweiniol;

- nodi athrawon i gymryd rhan yn y cynllun a rhoi amser iddynt gymryd rhan yn rhaglen hyfforddiant y Cynllun Ysgolion Creadigol Arweiniol;

- caniatáu amser i'r athrawon sy'n cymryd rhan gynllunio, gweithredu, myfyrio a gwerthuso eich gwaith prosiect gyda'ch Asiant Creadigol a phob partner. Cefnogi athrawon yn weithgar i arbrofi ac addysgu'n greadigol;

- bod yn ddeiliad y gyllideb ar gyfer y grant a rheoli'r arian i gefnogi gwaith y prosiect; a

- defnyddio'r dysgu o'r gwaith prosiect i ddylanwadu ar Gynllun Datblygu'r Ysgol yn y dyfodol.

## Cynllunio a gwerthuso

Lluniwyd y Fframwaith Cynllunio a Gwerthuso Ysgolion Creadigol Arweiniol i roi adnodd cynhwysfawr i'ch ysgol ar gyfer cynllunio a gwerthuso'r rhaglen a'r prosiect. Defnyddir y fframwaith hwn ar draws rhwydwaith gyfan ysgolion y cynllun Ysgolion Creadigol Arweiniol i roi tystiolaeth fanwl o ansawdd ac effaith y cynllun.

Yn ogystal, bydd y fframwaith yn helpu ysgolion i ddatblygu prosesau myfyriol, a fydd yn sicrhau bod ymagweddau at addysgu a dysgu creadigol sydd wedi ymwreiddio yn cael eu datblygu a bod y buddion cadarnhaol sy'n deillio o weithgarwch y prosiect yn cael eu cynnal yn y tymor hir.

Dyma'r camau allweddol sydd ynghlwm:

- cwmpasu a phenderfynu ar ffocws eich gwaith prosiect. Byddwch chi'n gweithio gyda'ch Asiant Creadigol i bennu a chadarnhau'r prif faterion, pryderon neu gwestiynau sy'n bwysig ar gyfer bodloni blaenoriaethau datblygu eich ysgol. Mae cytuno ar ddeilliannau'r dysgwyr yn rhan allweddol o'r gwaith cwmpasu neu gynllunio cychwynnol;

- cynllunio eich gwaith prosiect a chyflwyno'r manylion yn y Ffurflen Cynllunio Prosiect. Rhan allweddol o hyn fyddai cynllunio gweithgarwch prosiect sy'n arwain at y deilliannau rydych chi eisiau eu cyflawni ar gyfer dysgwyr;

- myfyrio'n rheolaidd ar gynnydd, gan sicrhau bod y prosiect yn cael ei gadw ar y trywydd cywir;

- gwerthuso'ch prosiect trwy gyfres o sgyrsiau â dysgwyr, athrawon ac Ymarferwyr Creadigol. Caiff y sgyrsiau hyn eu harwain gan eich Asiant Creadigol; ac

- adrodd ar y canfyddiadau o'ch gwaith fel Ysgol Greadigol Arweiniol yn y Ffurflen Gwerthuso Prosiect gan ddod i gasgliadau am ei effeithiau trwy driongli barn athrawon, Ymarferwyr Creadigol a dysgwyr.

Mae addysgu a dysgu creadigol yn broses gymhleth a thrwy ddefnyddio'r Ffurflen Cynllunio Prosiect a'r Ffurflen Gwerthuso Prosiect, byddwch yn cyfrannu hefyd at gorff pwysig o wybodaeth am sut y gall hyn weithio'n fwyaf effeithiol yng Nghymru i wella cyrhaeddiad a deilliannau i ddysgwyr. Ar sail cynllun a phrosiect, mae'r ffurflenni hyn yn cipio gwybodaeth werthfawr sy'n helpu i ddosbarthu a disgrifio gwaith, a hefyd i werthuso amrywiaeth o effeithiau a deilliannau sy'n deillio o'r Cynllun Ysgolion Creadigol Arweiniol. Hefyd, darparant ddata gwerthfawr i gynorthwyo â gwerthuso Dysgu Creadigol drwy'r Celfyddydau: cynllun gweithredu ar gyfer Cymru a gwybodaeth fonitro angenrheidiol ar gyfer Cyngor Celfyddydau Cymru a Llywodraeth Cymru. Bydd ffyrdd arall o gymryd rhan mewn gwerthuso'r rhaglen, ond bydd y data a gesglir ar y ffurflenni hyn yn ganolog i'r sail dystiolaeth. Mae'n bwysig bod y sail dystiolaeth a'r gwerthusiad o'r rhaglen yn fenter ar y cyd, gyda phob ysgol yn cymryd rhan mewn darganfod beth sy'n gweithio a beth y gellir ei wella.

O'u hystyried gyda'i gilydd, ac ar draws yr holl Ysgolion Creadigol Arweiniol, mae'r ffurflenni cynllunio a gwerthuso prosiectau yn llunio ymdeimlad cyfunol o'r ffordd y mae'r rhaglen genedlaethol hon yng Nghymru yn cyflawni ei nodau a'i huchelgeisiau. Gwnânt gyfraniad gwerthfawr hefyd at sicrhau ansawdd y rhaglen a lledaenu arfer gorau.

Mae'r tabl ar y dudalen isod yn rhestru'r dogfennau y bydd angen i chi eu defnyddio, gyda'ch Asiant Creadigol, i gynllunio a gwerthuso'ch gwaith fel Ysgolion Creadigol Arweiniol.

| Enw'r ddogfen | Diben |
|---|---|
| Ffurflen Cynllunio Prosiect | Ffurflen ar gyfer cofnodi cynllun y prosiect, gan gynnwys yr holl wybodaeth ddosbarthiadol, rifyddol a gwerthusol ofynnol. Mae angen y ffurflen hon, ynghyd â Ffurflen Gyllideb wedi'i llenwi, er mwyn rhyddhau taliad cyntaf y grant.<br>Mae arweiniad ar ddefnyddio'r ffurflen hon ar gael ar ddechrau'r ddogfen. |
| Ffurflen Myfyrio ar Sesiwn | Ar ddiwedd pob sesiwn, dylai pawb sy'n cymryd rhan yn y prosiect gyflawni myfyrdod byr (10-15 munud).<br>Nid oes rhaid i athrawon ac Ymarferwyr Creadigol ei defnyddio; gellir defnyddio dulliau eraill ond dylid cofnodi'r deilliannau o'r myfyrdod mewn rhyw ffordd.<br>Gellir defnyddio'r Ffurflen Myfyrio ar Sesiwn i gofnodi'r myfyrdod hwn ac ategu ymagwedd fyfyriol at weithio a fydd yn cyfrannu at y sgyrsiau gwerthuso yn ystod ac ar ddiwedd y prosiect. |
| Ffurflen Gwerthuso Prosiect | Dylai Asiantwyr Creadigol ddefnyddio'r ffurflen hon ar ddiwedd y prosiect i gofnodi pwyntiau allweddol o sgyrsiau gyda dysgwyr, athrawon ac Ymarferwyr Creadigol a wnaeth gymryd rhan yn y prosiect, gan ddefnyddio'r Fframwaith Cynllunio a Gwerthuso.<br>Mae'r Ffurflen Gwerthuso Prosiect yn cofnodi'r holl wybodaeth ddosbarthiadol, rifyddol a gwerthusol ac mae'n syntheseiddio'r effeithiau a'r deilliannau dysgu o waith y prosiect a'r dystiolaeth a gasglwyd i'w ategu.<br>Mae angen y ffurflen hon, ynghyd â Ffurflen Gyllideb wedi'i llenwi, er mwyn rhyddhau taliad terfynol y grant bob blwyddyn. |
| Ffurflen Gyllideb | Cofnod o incwm a gwariant arfaethedig a gwirioneddol. Mae Nodiadau Canllaw ar gyfer y Ffurflen Gyllideb ar gael i gynorthwyo ysgolion i ddefnyddio'r ffurflen. |

## Datblygiad y rhaglen

Nodweddir Ysgolion Creadigol Arweiniol gan waith prosiect fel eu gweithgaredd datblygu craidd. Mae gwaith prosiect fel gweithgarwch datblygu craidd yn nodwedd o Ysgolion Creadigol Arweiniol. Caiff y prosiectau eu llunio a'u cyflwyno trwy ymagwedd wedi'i arwain gan ymholi, sy'n cynorthwyo pob partner i ofyn cwestiynau a myfyrio yn barhaus.

Felly, sefydlu ffocws eich gwaith prosiect a'r hyn rydych chi eisiau ei archwilio yw un o'r agweddau pwysicaf ar ddatblygiad eich rhaglen. Trwy weithio gyda'ch Asiant Creadigol, byddwch yn pennu ac yn cadarnhau'r prif faterion, pryderon neu'r cwestiwn ymholi sy'n bwysig ar gyfer bodloni blaenoriaethau datblygu eich ysgol. Mae hyn yn sylfaen i chi ddatblygu prosiect neu brosiectau sy'n cyd-fynd â blaenoriaethau datblygu pwysig eich ysgol.

## Systemau cyflwyno prosiect a rheoli prosiect

Mae Ysgolion Creadigol Arweiniol yn defnyddio system gyffredin i gynllunio a gwerthuso prosiectau. Mae'r system yn rhoi fframwaith i ysgolion a'u partneriaid gynllunio prosiectau yn systematig ac yn effeithlon. Mae'r broses gynllunio ac arfarnu wedi'i rhannu'n nifer o gamau.

Mae ysgolion sy'n dechrau'r Cynllun Ysgolion Creadigol Arweiniol yn aml yn awyddus i gychwyn y broses gyda digwyddiad uchel ei broffil sy'n cyffroi disgwyliadau pobl ac sy'n creu brwdfrydedd. Er y gallai hyn fod yn briodol yn eich ysgol chi, mae profiad wedi dangos y gallai ymagwedd fwy pwyllog gyda chynllunio gofalus yn sylfaen iddi fod yn fwy cynhyrchiol yn y tymor hir.

Mae'n bwysig ystyried:

- Pwy yn eich tîm staff ddylai gymryd rhan mewn cynllunio'ch rhaglen waith a'ch prosiect neu brosiectau. Fel arfer, bydd hyn yn cynnwys athrawon a staff nad ydynt yn addysgu.

- Pa ran fydd disgyblion yn ei chwarae yn y cam cynllunio?

- Sut gallai aelodau eraill o gymuned yr ysgol gymryd rhan – e.e. rhieni, aelodau'r gymuned, partneriaid lleol?

- Wedi i'r syniadau ar gyfer eich rhaglen Ysgolion Creadigol Arweiniol gael eu datblygu, gyda phwy arall y mae angen ymgynghori ar y cynlluniau?

Rhagwelir y bydd Ysgolion Creadigol Arweiniol yn strwythuro eu gwaith dros y flwyddyn academaidd gyfan yn unol â chynllun tri thymor bras y manylir arno isod. Fodd bynnag, efallai y bydd rhywfaint o hyblygrwydd.

Bydd yr amser y mae'n ei gymryd i gwblhau'r broses gynllunio hon yn amrywio'n helaeth o brosiect i brosiect, ond ni ddylid ei rhuthro. Wedi i'r syniadau cychwynnol gael eu datblygu a chynllun cyffredinol y prosiect ei sefydlu, gellir dod ag Ymarferwyr Creadigol i mewn iddi er mwyn datblygu syniadau ymhellach. Po gynharaf y mae'r Ymarferwyr Creadigol hyn yn gysylltiedig, y gorau fydd y broses gynllunio. Nid oes unrhyw beth yn fwy tebygol o gamosod amcanion prosiect na methu sefydlu gweledigaeth ac amcanion ar y cyd ar ddechrau'r broses gynllunio, mewn partneriaeth agos â'r Ymarferwyr Creadigol a fydd yn ymwneud â chyflwyno'r prosiect.

Yn y cam hwn, dylid gofalu bod perthynas waith gadarnhaol yn cael ei sefydlu rhwng yr athrawon a fydd yn gweithio ar y prosiect a'r Ymarferwyr Creadigol cysylltiedig. Er y dylid parchu'r pwysau ar amser athrawon wrth wneud hyn, ni ddylid rhuthro'r broses. Efallai y gwelwch ei bod yn fuddiol dechrau'r broses hon gyda digwyddiad ymsefydlu i athrawon ac Ymarferwyr Creadigol ddod i adnabod ei gilydd ac archwilio gwerthoedd ac ymagweddau sy'n cael eu rhannu; bydd hyn yn help i sefydlu naws gadarnhaol ar gyfer archwilio'r prosiect ymhellach.

## Cynllunio

- Caiff yr ysgol ei pharu ag Asiant Creadigol;
- Ar ôl hyfforddiant, bydd ysgolion ac Asiantwyr Creadigol yn cydweithio i feithrin eu perthynas;
- Bydd ysgolion ac Asiantwyr Creadigol yn parhau i bennu a chadarnhau'r materion, pryderon neu'r ymholiad allweddol sy'n bwysig ar gyfer bodloni blaenoriaethau datblygu pob ysgol;
- Bydd Asiantwyr Creadigol yn siarad ag aelodau cymuned yr ysgol, gan gynnwys y pennaeth, y Cydlynydd Ysgol a'r athrawon a'r dysgwyr a fydd yn cymryd rhan yn y rhaglen;
- Cytunir ar ffocws y gwaith prosiect – dyma un o'r agweddau pwysicaf ar ddatblygiad eich rhaglen. Gall hwn fod ar ffurf cwestiwn ymholi;
- Bydd yr ysgol, gyda chymorth yr Asiant Creadigol, yn dewis yr Ymarferwyr Creadigol a fydd yn cymryd rhan yn y rhaglen a chaiff contractau ar gyfer eu gwaith eu llunio. Gallai fod yn ddefnyddiol neilltuo amser neu ddefnyddio sesiwn gyda'r nos i gytuno ar sut bydd y partneriaid yn y broses yn gweithio fel grŵp, sut byddant yn datblygu eu partneriaeth a sut byddant yn cyfathrebu:
- Ar ôl sefydlu ffocws eich gwaith prosiect neu eich cwestiwn ymholi, y cam nesaf fydd penderfynu beth fydd y deilliannau dysgu disgwyliedig ar gyfer disgyblion, athrawon ac Ymarferwyr Creadigol. Bydd y potensial am effaith ddofn yn cael ei ymestyn ymhellach os oes modd i ddisgyblion gymryd rhan yn y cam hwn, fel y gallant chwarae rhan lawn yn mynd i'r afael â'u hanghenion dysgu eu hunain a llywio'r broses ddysgu;
- Y dasg nesaf yw cynllunio gweithgareddau'r prosiect a fydd yn arwain at eich deilliannau dysgu. Dyma ble y mae ansawdd y cydweithio rhwng yr Ymarferwr Creadigol a'r athro yn chwarae rhan allweddol yn llwyddiant y prosiect. Daw'r ddau weithiwr proffesiynol i'r bartneriaeth â gwybodaeth, sgiliau, profiad ac ymddygiad sydd, o'u cyfuno mewn perthynas gydweithredol gadarnhaol, yn gallu creu ymatebion

arloesol a phwerus i anghenion dysgwyr. Mae'r cydweithio hwn yn cael ei ymestyn ymhellach pan fydd pobl ifanc yn cymryd rhan ynddo yn gydradd;

- Bydd y prosiect yn cael ei gynllunio gyda'r Ymarferwyr Creadigol, y disgyblion a'r athrawon cysylltiedig. Cyflwynir y Ffurflen Cynllunio Prosiect wedi'i gwblhau i Arweinydd Prosiect yr Ysgol Greadigol Arweiniol. Fel y gallwch olrhain effaith y Cynllun Ysgolion Creadigol Arweiniol ar bawb sy'n cymryd rhan yn y prosiect, bydd angen i chi feincnodi'r sefyllfa ar ddechrau'r prosiect a phenderfynu pa ddogfennau a deunyddiau byddwch chi'n eu casglu er mwyn casglu tystiolaeth yn ystod gwaith y prosiect;

- Bydd Arweinydd Prosiect yr Ysgol Greadigol Arweiniol yn cymeradwyo'r Prosiect a'r gyllideb arfaethedig neu'n awgrymu diwygiadau pellach;

- Bydd Cyngor Celfyddydau Cymru yn talu'r gyfran gyntaf o gyllid y prosiect – 45% o gyfanswm eich grant – i'r ysgol; a

- Dylech wedyn symud ymlaen i'r cam nesaf, sef cynllunio sesiynau, a dylai hwn fod yn broses gydweithredol wedi'i rhannu mor eang â phosibl gan y partneriaid cysylltiedig. Dylai'r Ymarferwr/Ymarferwyr Creadigol a'r athro/athrawon sydd ynghlwm â gwaith y prosiect fod yn cymryd rhan mewn cynllunio, cyflwyno a myfyrio. Sylwer y gallai fod adegau yn ystod cam cyflwyno'r prosiect pan fydd yr Ymarferwr Creadigol yn gweithio gydag un grŵp o ddisgyblion a'r athro yn gweithio gyda grŵp arall yn ystod sesiwn. Os yw'r broses gydweithredol yn effeithiol, mae'n fwy tebygol o lawer y bydd gweithgarwch prosiect yn briodol a bydd y deilliannau dysgu a ddymunir yn cael eu gwireddu. Mae'n bwysig nodi y bydd cynllunio sesiynau yn fanwl yn parhau hefyd yn ystod gweithgarwch y prosiect.

## Gweithgarwch

- Bydd gweithgarwch y prosiect gyda'r Ymarferwyr Creadigol yn dechrau yn yr ysgol;

- Wedi i weithgarwch y prosiect ddechrau, mae'n bwysig sefydlu proses o fyfyrio parhaus sy'n cynnwys disgyblion, athrawon ac Ymarferwyr Creadigol. Bydd Ffurflen Myfyrio ar Sesiwn yn helpu strwythuro sgyrsiau byr (10-15 munud) ar ddiwedd pob sesiwn a throi sylw'r cyfranwyr at ddibenion craidd y prosiect. Bydd y ffurflenni hyn yn gymorth cof amhrisiadwy pan fydd y sgyrsiau myfyrio a gwerthuso terfynol yn digwydd ar ddiwedd y prosiect. Gellir defnyddio dulliau eraill, ond mae'n bwysig bod deilliannau'r myfyrio'n cael eu cofnodi rywsut. Mae'n bwysig iawn bod yr arfer o fyfyrio'n gydweithredol yn dod yn nodwedd allweddol o'r rhaglen;

- Bydd cynllunio sesiynau'n fanwl yn parhau;
- Bydd y gweithgarwch yn cael ei gofnodi'n barhaus gan ddefnyddio amrywiaeth o ddulliau, er mwyn rhoi adroddiad manwl o'r hyn a ddigwyddodd;
- Bydd y gweithgarwch yn annog datblygiad proffesiynol parhaus yr athrawon cysylltiedig er mwyn eu cynorthwyo i ddatblygu ymagweddau creadigol at addysgu a dysgu;
- Hefyd, mae'r Asiant Creadigol yn cefnogi myfyrdod ar gynnydd ac effaith yn ystod gweithgarwch y prosiect i sicrhau bod y prosiect yn cadw ar y trywydd cywir. Egwyddor graidd ymagwedd y Cynllun Ysgolion Creadigol Arweiniol at werthuso yw bod pob grŵp o ddysgwyr mewn ysgol – disgyblion, athrawon ac ymarferwyr – yn gwneud sylwadau ar eu dysgu eu hunain a dysgu pobl eraill. Yna, gellir cymharu amrywiaeth o safbwyntiau ynghylch dysgu a dod i gasgliadau am yr hyn sy'n cael ei ddysgu. Yn benodol, mae'r broses hon yn helpu disgyblion i ddatblygu eu dysgu ar y cyd – elfen bwysig mewn datblygu creadigrwydd; a
- Bydd yr Asiant Creadigol a'r Cydlynydd Ysgol yn cefnogi cyfleoedd rheolaidd i fynd ati i rannu dysgu a datblygu arfer yn yr ysgol yn ystod cyfarfodydd eu Rhwydwaith Dysgu Proffesiynol o Ysgolion Creadigol Arweiniol.

## Myfyrio a Gwerthuso Terfynol

- Wedi i weithgarwch y prosiect gael ei gwblhau, bydd yr Asiant Creadigol yn cynnal sgyrsiau gwerthuso ar wahân gyda disgyblion, athrawon ac Ymarferwyr Creadigol. Bydd y sgyrsiau hyn yn darganfod pa ddysgu a fu ar gyfer pob un o'r tri grŵp o ddysgwyr. Dylai pob un o'r sgyrsiau hyn bara tuag awr.

  Bydd angen cynllunio'r sgyrsiau hyn yn fanwl a, chyn eu cynnal, dylai'r Asiant Creadigol a'r Cydlynydd Ysgol adolygu'r Ffurflen Cynllunio Prosiect, Ffurflenni Myfyrio ar Sesiwn a'r deunyddiau, y dogfennau a data'r ysgol a gasglwyd yn ystod gwaith y prosiect.

  Bydd rhaid i Asiantwyr Creadigol ddefnyddio cryn dipyn o sgil a chrebwyll wrth gynnal y sgyrsiau hyn, gan ddefnyddio iaith ac arddull holi sy'n briodol i oedran a gallu'r disgyblion, ond gan gynnal ffocws ar ddeilliannau dysgu disgwyliedig y prosiect. Cynhelir sgyrsiau gwerthuso gan ddefnyddio amrywiaeth o ddulliau creadigol ac fe'u cofnodir yn y pen draw gan ddefnyddio Ffurflen Gwerthuso Prosiect yr Ysgolion Creadigol Arweiniol;
- Y dasg olaf fydd i'r Asiant Creadigol a Chydlynydd Ysgolion Creadigol Arweiniol yr ysgol lenwi'r Ffurflen Gwerthuso Prosiect.

Bydd angen iddynt gasglu a syntheseiddio'r canfyddiadau o'r sgyrsiau gwerthuso. Hefyd, bydd rhaid iddynt gasglu a chofnodi'r holl wybodaeth ddosbarthiadol, rifiadol a gwerthusol ofynnol, a syntheseiddio'r effeithiau a'r deilliannau dysgu gwirioneddol o waith y prosiect a'r dystiolaeth a gasglwyd i'w ategu. Bydd rhaid iddynt gynhyrchu crynodeb o'r prosiect sy'n hwylus ac sy'n galluogi darllenydd i ddeall yn gyflym beth y mae'r bobl a gymerodd ran yn y prosiect yn cytuno iddo gael ei gyflawni, yn eu barn nhw ac yn ôl y data a gasglwyd. Bydd Ffurflen Gyllideb wedi'i llenwi yn cyd-fynd â'r ffurflen hon. Cyflwynir y ffurflen hon i Arweinydd Prosiect yr Ysgol Greadigol Arweiniol;

- Ar ôl cymeradwyo'r Ffurflen Gwerthuso Prosiect a'r Ffurflen Gyllideb, ar ddiwedd Blwyddyn 1, telir ail gyfran y taliad. Mae hyn yn 45% o gyfanswm dyraniad y grant. Telir taliad 10% terfynol y grant pan gwblheir ail flwyddyn eich prosiect i safon dderbyniol; a
- Bydd yr ysgol, trwy weithio gyda'i Hasiant Creadigol, yn cynllunio sut i symud ymlaen, gan ymgorffori'r dysgu sydd wedi deillio o'i gwaith fel Ysgol Greadigol Arweiniol.

*Sylwer, er y byddwch chi'n datblygu diwylliant o fyfyrio ymhlith yr holl bobl sy'n cymryd rhan mewn gweithgarwch prosiect trwy gydol oes y prosiect, mae'n bwysig neilltuo digon o amser ar gyfer y broses werthuso ffurfiol derfynol.*

## Delio â'r annisgwyl

Os bydd llawer o bethau annisgwyl yn dechrau digwydd, dylai partneriaid ddod ynghyd a gweld ymhle y gallech addasu cynlluniau prosiect i ymgorffori rhai o'r newidiadau hyn. Mae'n bwysig ymgynghori â'r rhai sy'n cymryd rhan a gweld sut y gallai archwilio cyfeiriadau newydd arwain at ddeilliannau cadarnhaol. Byddwch yn barod ar gyfer newid a'r annisgwyl – mae'r un gwerth i'r daith â'r cyrraedd. Mae'n bosibl y bydd cyfres yr un mor werthfawr o ddeilliannau dysgu annisgwyl yn cyd-fynd â'r deilliannau dysgu disgwyliedig yr ydych yn gweithio tuag atynt. Bydd angen cadw llygad allan am y rhain a'u cofnodi fel agwedd bwysig ar weithgarwch y prosiect. Mae'r system werthuso yn caniatáu am hyn.

## Beth all fynd o le?

Ni waeth pa mor dda y byddwch chi'n cynllunio'ch prosiect, gall pethau fynd o le. Bydd llawer o'r dysgu gwirioneddol sy'n digwydd yn ystod prosiect yn deillio o'r ffordd y mae pobl yn delio â materion ac yn datrys problemau pan fydd pethau'n mynd o le.

Pan fydd problemau'n digwydd am resymau logistaidd – y lle anghywir, dim digon o gadeiriau neu adnoddau, neu'r man cyfarfod anghywir – gellir datrys y rhain trwy gynllunio gwell fel arfer. Yn aml, bydd camgymeriad yn digwydd o ganlyniad i gyfathrebu gwael: sut gall hynny gael ei wella? Y sefyllfaoedd anoddach yw'r rhai lle y mae emosiynau yn allweddol – pan na wrandewir ar rywun, pan fydd rhywun yn teimlo'i fod wedi cael ei anwybyddu neu ei adael

allan ond ni all fynegi'r teimladau hynny ac mae dicter ac awyrgylch negyddol. Dylai delio â hyn cyn gynted â phosibl fod yn flaenoriaeth. Os yw'n ymwneud â'r grŵp cyfan, defnyddiwch dechnegau gwrando grŵp. Os yw'r broblem rhwng yr athro a'r Ymarferwr Creadigol, gofynnwch i'ch Asiant Creadigol gamu i mewn i arwain sgwrs gyda'r ddau ohonoch er mwyn trafod pob mater a gwneud penderfyniadau. Weithiau, gall athrawon fynd yn rhwystredig ynghylch diffyg profiad yr Ymarferwr Creadigol o'r ystafell ddosbarth ond, mewn gwirionedd, dyma un o'i asedau gorau, gan alluogi iddo ofyn cwestiynau anodd am sut mae ysgolion yn gweithredu. Fel 'pryfocwyr preswyl', gallant agor y meddwl i ffyrdd gwahanol o weithio.

## Dathlu a rhannu llwyddiannau

Mae'n bwysig dathlu llwyddiannau pawb sydd ynghlwm wrth eich prosiect Ysgolion Creadigol Arweiniol a rhannu'r dysgu o'r profiad. Gwnewch yn siŵr eich bod yn cydnabod gwerth cyfraniad pawb a diolchwch i bobl am eu help.

### Digwyddiadau

Gallai digwyddiadau arbennig, er enghraifft perfformiadau, fod yn ffordd briodol o ddathlu adegau allweddol mewn prosiectau neu o ddod â'ch rhaglen i derfyn. Mae'n bwysig bod y digwyddiadau hyn yn ategu'r rhaglen gyffredinol yn hytrach na thynnu sylw ac amser oddi wrth. Gallai rhoi sioe neu berfformiad terfynol at ei gilydd ddwyn sylw pobl oddi wrth y dysgu sy'n digwydd mewn prosiectau. Mewn achosion eraill, fodd bynnag, mae'n bosibl mai'r her o weithio tuag at ddigwyddiad yw'r dysgu mwyaf sy'n digwydd. Rhaid pwyso a mesur yn ofalus.

### Dogfennau

Efallai y bydd yn briodol cynhyrchu dogfen, astudiaeth achos, taflen neu gyhoeddiad byr sy'n dathlu eich prosiect Ysgolion Creadigol Arweiniol. Yn ystod eich prosiect, mae'n anochel y byddwch wedi casglu detholiad o ddelweddau, datganiadau y gellir eu dyfynnu, straeon a darnau eraill o waith. Bydd dwyn y rhain ynghyd mewn dogfen, astudiaeth achos neu daflen sy'n rhannu eich profiad â chynulleidfa ehangach yn creu adnodd y gallai pobl eraill ddysgu ohono.

Mae'n bwysig eich bod yn talu sylw digonol i ddisgrifio'r effeithiau tystiolaethol sydd wedi deillio o'ch rhaglen, wrth lunio dogfen o'r fath. Er y gallai hanes y daith ddysgu greadigol fod yn ystyrlon i chi, bydd cynulleidfa ehangach eisiau dysgu am yr effeithiau dyfnach sydd wedi deillio o gyflawni eich gwaith.

### Rhwydweithio a lledaenu gwybodaeth ar draws yr ysgol

Mewn ysgolion llai, mae prosiectau dysgu creadigol fel arfer yn denu sylw cymuned gyfan yr ysgol ac mae cyfathrebu ar draws tîm y staff yn gymharol syml. Mewn ysgolion mwy, bydd

angen i chi gynllunio ffyrdd o sicrhau bod y dysgu sy'n deillio o'r rhaglen yn cael ei rannu gyda thîm y staff.

Bydd eich Rhwydwaith Dysgu Proffesiynol Ysgolion Creadigol Arweiniol yn ffordd bwysig o rannu a dylanwadu ar arfer yn eich ysgol. Gallai hyn lunio rhan o ddiwrnodau hyfforddiant mewn swydd ysgol a bydd Asiantwyr Creadigol ac Ymarferwyr Creadigol yn hapus i gymryd rhan mewn digwyddiadau o'r fath, gan arwain gweithgareddau ochr yn ochr ag athrawon. Mae cyfarfodydd staff yn ddefnyddiol hefyd. Cyn cyfarfod y Rhwydwaith Dysgu Proffesiynol, cyfarfodydd staff neu ddiwrnodau hyfforddiant mewn swydd, dylech gynllunio ar gyfer adeiladu ar ddiddordeb a brwdfrydedd cydweithwyr ynghylch ymestyn y gwaith hwn eu hunain.

## Rhwydweithio

Disgwylir i Ysgolion Creadigol Arweiniol gymryd rhan weithgar mewn digwyddiadau rhwydweithio a rhannu. Bydd Arweinwyr Prosiectau'r Cynllun Ysgolion Creadigol Arweiniol yn cefnogi'r rhwydweithio hwn ac yn cynnig cyfleoedd i rannu profiadau a dysgu. Ein gobaith yw cael cyfleoedd i Ysgolion Creadigol Arweiniol gyfarfod yn genedlaethol i rannu arfer da a chodi proffil dysgu creadigol ar draws ysgolion yng Nghymru. Hefyd, byddwn yn annog rhwydweithio a chydweithio digidol yn y Parth Dysgu Creadigol.

## Ymwelwyr

Gofynnir yn aml i Ysgolion Arweiniol Creadigol groesawu ymwelwyr sydd eisiau gwybod mwy am ddysgu creadigol. Er y gall ymwelwyr beri anghyfleustra ar adegau, mae'n bwysig bod cydweithwyr â diddordeb yn gallu gweld yr arfer rhagorol sy'n cael ei ddatblygu yn eich ysgol. Bydd eich ysgol yn dod i arfer â rheoli lefelau'r diddordeb ac mae'n bwysig eich bod chi'n cael cydbwysedd rhwng derbyn gwesteion ac ymweld ag ysgolion eraill eich hun i ddysgu oddi wrth eraill.

# Adran 2: Gyda phwy byddwch chi'n gweithio fel Ysgol Greadigol Arweiniol

## Cydlynydd Ysgol Ysgolion Creadigol Arweiniol

Mae Cydlynwyr Ysgolion Creadigol Arweiniol yn chwarae rhan allweddol yn sicrhau bod rhaglenni ysgolion yn llwyddiannus. Nhw sy'n gyfrifol am lywio'r prosiect, a sicrhau ei bod wedi'i hintegreiddio yn arfer ehangach yr ysgol. Yn ddelfrydol, mae Cydlynwyr Ysgol yn aelodau o uwch dîm arweinyddol yr ysgol a byddant yn atebol i'r Pennaeth. Byddant yn dylanwadu ar feddwl ac arfer cydweithwyr a rhanddeiliaid eraill yng nghymuned yr ysgol. Gall ysgol ddadlau achos dros enwebu athro yn Gydlynydd Ysgol. Mewn achosion o'r fath, disgwylir bod yr athro'n cael ei ddatblygu'n arweinydd at y dyfodol a bod yr ysgol wedi penderfynu bod y Cynllun Ysgolion Creadigol Arweiniol yn cynnig cyfle i'r athro dan sylw ddatblygu ei sgiliau arwain. Yn gyffredinol, byddai disgwyl i'r athro fynychu a chymryd rhan mewn cyfarfodydd uwch arweinwyr.

### Swyddogaethau Allweddol Cydlynydd Ysgol

**Cynorthwyo â datblygu dysgu creadigol yn yr ysgol drwy:**

- ddatblygu gwybodaeth, dealltwriaeth a brwdfrydedd ynghylch dysgu ac addysgu creadigol fel allwedd i wella cyrhaeddiad, uchelgais a symbyliad;
- adeiladu a datblygu cymuned o arfer dysgu creadigol yn yr ysgol trwy sefydlu Rhwydwaith Dysgu Proffesiynol Ysgolion Creadigol Arweiniol; a
- chynnwys rhieni ac aelodau eraill y gymuned yn y prosiect.

**Rhaid i'r Cydlynydd Ysgol sicrhau bod y prosiect yn mynd i'r afael â blaenoriaethau datblygu pwysig yr ysgol, a:**

- thrwy ddeialog â chymuned ehangach yr ysgol, ddatblygu rhaglen sy'n cyfrannu'n uniongyrchol at gyflawni blaenoriaethau Cynllun Datblygu'r Ysgol (CDY) ac anghenion dysgwyr;
- hwyluso datblygu addysgu a dysgu creadigol yn y tymor hwy; a
- datblygu cynllun i'r ysgol weithio fel Ysgol Greadigol Arweiniol.

**Rhaid i'r Cydlynydd Ysgol gynorthwyo â rheoli'r prosiect, a:**

- gweithredu fel hwylusydd yn yr ysgol, yn gallu trosi gweledigaeth yr ysgol a'i huchelgais o ran dysgu creadigol yn weithredu ymarferol;

- sicrhau bod dysgwyr yn chwarae rhan ystyrlon a gweithgar wrth lunio'r rhaglen, fel ei bod yn adlewyrchu eu diddordebau, eu hanghenion a'u brwdfrydedd;

- cymryd cyfrifoldeb cyffredinol am reoli'r prosiect, gan ddirprwyo ar draws cymuned yr ysgol a sicrhau bod pawb yn deall rolau a chyfrifoldebau yn glir;

- cydlynu cyfarfodydd a gweithgareddau gydag Ymarferwyr Creadigol, staff ysgol a phartneriaid eraill, mewn partneriaeth ag Asiant Creadigol yr ysgol;

- sicrhau bod Ymarferwyr Creadigol sy'n cymryd rhan yn y prosiect yn gallu datblygu cyfathrebiadau priodol ar draws cymuned yr ysgol; a

- sicrhau bod holl weithgarwch Ysgolion Creadigol Arweiniol yn cael ei gyflawni gan roi ystyriaeth briodol i iechyd a diogelwch a diogelu plant a phobl ifanc.

**Rhaid i'r Cydlynydd Ysgol weithio'n agos ag Asiant Creadigol yr ysgol, a:**

- chynnal amserlen gyswllt reolaidd gyda'r Asiant Creadigol, gan weithio tuag at sefydlu deialog hirdymor yn seiliedig ar ymddiriedaeth, her a chydweithredu;

- bod yn brif bwynt cyswllt â staff y Cynllun Ysgolion Creadigol Arweiniol; a

- sicrhau bod pob system ar gyfer cynllunio a gwerthuso'r prosiect yn cael ei defnyddio yn unol â Fframwaith Cynllunio a Gwerthuso Ysgolion Creadigol Arweiniol.

**Rhaid i'r Cydlynydd Ysgol gefnogi gwerthuso a chynaliadwyedd, a:**

- sicrhau bod yr holl ofynion monitro a gwerthuso a amlinellir yn Fframwaith Cynllunio a Gwerthuso Ysgolion Creadigol Arweiniol yn cael eu cyflawni;

- sicrhau bod partneriaid yn ymrwymo i ddatblygu arfer myfyriol ar draws y gwaith yn yr ysgol; a

- gweithio'n agos â'r Asiant Creadigol a'r ysgol i sicrhau bod ymagweddau effeithiol at addysgu a dysgu creadigol yn ymwreiddio ar draws yr ysgol.

**Rhaid i'r Cydlynydd Ysgol gefnogi eiriolaeth a lledaenu gwybodaeth, a:**

- sicrhau bod yr ysgol yn cymryd rhan lawn mewn cyfleoedd eiriolaeth a lledaenu gwybodaeth ehangach ar gyfer Ysgolion Creadigol Arweiniol a'i bod yn chwarae rhan ragweithiol yn rhanbarthol ac yn ehangach i hyrwyddo'r manteision sy'n deillio o'r rhaglen; a

- rhwydweithio’n weithgar ag ysgolion eraill a phartneriaid allanol sy’n gysylltiedig â’r cynllun, gan fynychu cyfarfodydd rhwydweithio’r Cynllun Ysgolion Creadigol Arweiniol fel y bo’n briodol.

### Ymrwymiad amser

Dylai Cydlynwyr Ysgol ddisgwyl neilltuo oddeutu 10 diwrnod dros y flwyddyn academaidd i’w gwaith ar y Cynllun Ysgolion Creadigol Arweiniol. Mae’r amser hwn yn cynnwys presenoldeb y Cydlynwyr Ysgol mewn rhaglen hyfforddiant ymarferol ac ysbrydoledig dros ddeuddydd i ategu eu dealltwriaeth o ddysgu creadigol, datblygiad sgiliau creadigol a sut gall ysgolion ddefnyddio’r Cynllun Ysgolion Creadigol Arweiniol i ategu eu blaenoriaethau datblygu pwysig. Hefyd, mae’n cynnwys amser i fynychu cyfarfodydd a digwyddiadau rhwydweithio Ysgolion Creadigol Arweiniol.

Bydd disgwyl i Gydlynwyr Ysgol gael eu rhyddhau o ddyletswyddau eraill er mwyn sicrhau bod digon o amser yn cael ei neilltuo i’r rôl hon i fynychu cyfarfodydd cynllunio, gwerthuso a rhwydweithio.

## Yr Asiant Creadigol

### Beth yw Asiant Creadigol?

Mae Asiantwyr Creadigol yn cynnig rôl allweddol sy’n cynorthwyo Ysgolion Creadigol Arweiniol i gyflawni eu nodau, gan gydnabod natur unigryw a chymhleth gweithio mewn partneriaeth. Mae Asiantwyr Creadigol yn unigolion creadigol proffesiynol annibynnol sydd mewn sefyllfa unigryw i ddatblygu perthynas gefnogol, barhaus gydag athrawon a staff ysgol, dysgwyr ac Ymarferwyr Creadigol eraill i sicrhau effeithiolrwydd, cyrhaeddiad a chynaliadwyedd, yn arwain at welliannau a newidiadau i addysgeg.

Mae Asiantwyr Creadigol yn feddylwyr creadigol ac yn gynhyrchwyr syniadau, sy’n gallu creu partneriaethau llwyddiannus rhwng ysgolion, y sectorau creadigol, diwylliannol ac addysg ehangach, a thu hwnt, trwy eu dealltwriaeth brofedig a’u sensitifrwydd i anghenion y gwahanol sectorau hyn. Eu sgiliau allweddol yw eu gallu i herio a chefnogi arfer newydd ym maes dysgu creadigol. Mae Asiantwyr Creadigol yn defnyddio’u profiad ymarferol o ‘greadigrwydd’, a gallant fod yn gatalyddion sy’n gallu ymateb i anghenion a blaenoriaethau datblygu unigol pob ysgol.

P’un a ddôn nhw o sectorau’r celfyddydau, diwylliant, y diwydiannau creadigol, gwyddoniaeth neu o sectorau eraill, eu sgiliau allweddol fydd eu gallu i herio, cefnogi a chynnal arfer newydd ym maes dysgu creadigol.

Mae Asiantwyr Creadigol yn cefnogi ysgolion ac Ymarferwyr Creadigol trwy fod yn ffrind beirniadol: gall hyn olygu gofyn cwestiynau heriol mewn cyd-destun cefnogol. Cefnogant ysgolion ac Ymarferwyr Creadigol i weithio gyda phlant a phobl ifanc fel partneriaid cydradd. Maent yn helpu i wireddu potensial creadigol pob dysgwr i wneud dysgu'n fwy diddorol ac effeithiol trwy ymagweddau creadigol.

Yn bwysicaf oll, dylai Asiantwyr Creadigol gefnogi arfer myfyriol yn weithgar trwy feithrin twf cymunedau dysgu creadigol mewn ysgolion. Er bod Asiantwyr Creadigol yn cael eu recriwtio o ystod eang o gefndiroedd creadigol proffesiynol – o'r celfyddydau, diwylliant, gwyddoniaeth a thu hwnt, mae ganddynt oll un peth yn gyffredin – ymrwymiad i weithio mewn partneriaeth ag ysgolion i helpu i wireddu potensial creadigol pob dysgwr a helpu i wneud dysgu'n fwy diddorol ac effeithiol trwy ymagweddau creadigol.

Bydd eich Asiant Creadigol yn:

- 'ffrind beirniadol' i herio'ch meddwl a'ch ymarfer;
- eich helpu i bennu a chadarnhau'r materion, pryderon neu'r ymholiad allweddol sy'n bwysig ar gyfer bodloni blaenoriaethau datblygu eich ysgol, fel y'u hamlinellir yng Nghynllun Datblygu'r Ysgol, ac anghenion y dysgwyr;
- cynghori ar gynllunio'r prosiect a rheoli'r prosiect;
- cefnogi perthynas waith effeithiol a gweithio'n effeithiol mewn partneriaeth;
- ysgogi meddyliau a syniadau;
- helpu i chi ddatblygu ymagwedd fyfyriol;
- gofyn cwestiynau a fydd yn herio'ch ffordd o feddwl;
- dod â safbwynt gwahanol, ond perthynol;
- eich helpu i ddewis Ymarferwyr Creadigol a fydd yn dod â sgiliau priodol i'ch prosiectau;
- eich helpu i fodloni'r holl ofynion monitro a gwerthuso fel Ysgol Greadigol Arweiniol.

Mae gan yr Asiant Creadigol y rôl a'r potensial mwyaf i gyfoethogi eich rhaglen waith fel Ysgol Greadigol Arweiniol, felly mae'n bwysig iawn eich bod chi'n sefydlu perthynas adeiladol a chadarnhaol gyda'ch Asiant Creadigol. Dylech ei ystyried yn rhan hanfodol o'ch tîm.

Bydd Cyngor Celfyddydau Cymru yn cynnal gwiriadau manwl y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd ar bob unigolyn sy'n cael ei ddewis yn Asiant Creadigol. Hefyd, byddant yn paru

eich ysgol ag Asiant Creadigol a fydd yn eich cefnogi chi am nifer gytunedig o ddiwrnodau bob blwyddyn.

Mae'n bwysig nad ydych chi'n ystyried eich Asiant Creadigol fel rhywun sy'n gwirio eich cynnydd, yn rheoli ansawdd neu'n ffynhonnell pob gwybodaeth a doethineb. Mae cynllunio, datblygu a gwireddu gwaith eich prosiect yn llwyddiannus fel Ysgol Greadigol Arweiniol yn gyfrifoldebau sy'n cael eu rhannu rhwng yr Asiant Creadigol a'r ysgol.

Os oes problemau na ellir eu datrys o fewn y bartneriaeth ac sy'n effeithio'n negyddol arni, rhowch alwad i'ch Arweinydd Prosiect Ysgolion Creadigol Arweiniol i gael gair cyfrinachol. Bydd yn gwneud ei orau i helpu.

### Swyddogaethau allweddol yr Asiant Creadigol

**Rôl yr Asiant Creadigol yw cefnogi datblygiad dysgu creadigol mewn ysgolion drwy:**

- fynegi a rhannu gweledigaeth dysgu creadigol rhwng yr holl bartneriaid;
- datblygu prosiectau dysgu creadigol o ansawdd uchel; a
- brocera a chefnogi'r partneriaethau rhwng ysgolion ac Ymarferwyr Creadigol i alluogi cynnal prosiectau dysgu creadigol.

**Rhaid i'r Asiant Creadigol ddatblygu a rheoli perthynas effeithiol gydag ysgolion, a:**

- gweithio mewn partneriaeth â thîm arwain, staff a dysgwyr yr ysgol i nodi rhaglen waith glir, ffocysedig, sy'n berthnasol ac yn bwysig i'r ysgol ac sy'n mynd i'r afael â blaenoriaethau a materion allweddol a amlygwyd;
- archwilio ymagweddau creadigol, realistig a phwrpasol at ddatblygu'r maes gwaith hwnnw i gynhyrchu rhaglen sy'n unigryw ac yn benodol i'r ysgol honno ac sydd wedi'i chysylltu â Chynllun Datblygu'r Ysgol ac anghenion dysgwyr;
- datblygu rhaglenni mewn ffyrdd sy'n gwneud y mwyaf o gyfraniad gweithgar amrywiaeth eang o bartneriaid mewn ffordd wirioneddol gynhwysol ac sy'n cefnogi ysgolion i ddatblygu perchenogaeth a chyfrifoldeb dros y rhaglen; a
- dod â'u harbenigedd a'u rhwydweithiau creadigol eu hunain i ddatblygiad y Cynllun Ysgolion Creadigol Arweiniol.

**Rhaid i'r Asiant Creadigol gynllunio a brocera perthynas yn effeithiol, a:**

- gweithio gydag ysgolion i gyfrannu at recriwtio Ymarferwyr Creadigol;
- brocera partneriaethau ag Ymarferwyr Creadigol sy'n gallu gweithio gyda'r ysgol i ddatblygu cynllun ar gyfer prosiect dysgu creadigol;
- gweithio gyda dysgwyr, athrawon a staff yr ysgol a, lle y bo'n briodol, rhieni a'r gymuned ehangach, i ddatblygu rhaglen ysbrydoledig o weithgareddau mewn partneriaeth ag Ymarferwyr Creadigol sy'n adlewyrchu'r deilliannau dysgu a amlygwyd ac sy'n bodloni nodau ac amcanion pob partner; a
- chysylltu'r ysgol â syniadau, ymagweddau, profiadau a chyrff eraill a allai gefnogi'r gwaith hwn.

**Rhaid i'r Asiant Creadigol reoli'r Cynllun Ysgolion Creadigol Arweiniol yn yr ysgol, a:**

- monitro a rheoli amser yn effeithiol, er mwyn cynhyrchu cofnodion cywir, amserol am eu gwaith fel bo'r angen i ddarparu tystiolaeth o gyflawni'r gwasanaeth;
- cymhwyso gwerthoedd a pholisïau arfer orau; sicrhau bod prosiectau mewn ysgolion wedi'u seilio ar ddealltwriaeth glir o rolau a chyfrifoldebau a phartneriaeth rhwng pob partner;
- sicrhau bod cynlluniau yn hyfyw yn ariannol; a

sicrhau bod prosesau ar waith ar gyfer meincnodi, cofnodi, casglu tystiolaeth, myfyrio parhaus, gwerthuso a sicrhau ansawdd er mwyn deall yr effaith ar bob dysgwr. Bydd hyn yn defnyddio data perthnasol yr ysgol.

**Rhaid i'r Asiant Creadigol gefnogi gwerthuso a chynaliadwyedd, a:**

- chefnogi'r ysgol i nodi ac ymwreiddio'r dysgu a ddaeth i'r amlwg yn eu cynllunio er mwyn cynnal datblygiad dysgu creadigol ar draws agweddau perthnasol ar yr ysgol;
- sicrhau bod ffocws y prosiect yn cael ei gynnal ar y materion allweddol, ei fod yn ategu deilliannau dysgu disgwyliedig ac yn cefnogi'r ysgol â'i myfyrio a'i gwerthuso parhaus;
- cynorthwyo'r ysgol i sicrhau bod yr holl ofynion monitro a gwerthuso sydd wedi'u hamlinellu yn Fframwaith Cynllunio a Gwerthuso Ysgolion Creadigol Arweiniol yn cael eu cyflawni a chyflwyno'r ffurflenni ar ran yr ysgol; a

- gweithio gydag athrawon i rannu dysgu ag ysgolion ac unigolion creadigol proffesiynol eraill sy'n ymwneud â'r Cynllun Ysgolion Creadigol Arweiniol.

Rhaid i'r Asiant Creadigol gydweithio a:

- gweithio gydag Asiantwyr Creadigol eraill a staff yn y Cynllun Ysgolion Creadigol Arweiniol trwy roi'r newyddion diweddaraf iddynt yn rheolaidd a mynychu cyfarfodydd rhwydweithio;

- cydgysylltu'n effeithiol rhwng y staff Ysgolion Creadigol Arweiniol yng Nghyngor Celfyddydau Cymru a'r ysgol;

- codi proffil Ysgolion Creadigol Arweiniol a bod yn llysgennad ar gyfer dysgu creadigol, gan gynrychioli'r cynllun mewn digwyddiadau yn yr ysgol a thu hwnt i rannu profiadau ac eirioli dros y gwaith;

- mynychu a chymryd rhan mewn sesiynau ymsefydlu a dysgu proffesiynol;

- cyfrannu at ddatblygu amgylchedd dysgu a gweithio proffesiynol sy'n cyfrannu at wella a datblygu'r Cynllun Ysgolion Creadigol Arweiniol yn barhaus, yn lleol ac yn genedlaethol;

- cyfrannu at y ddealltwriaeth o amrywiaeth a'i goblygiadau ar gyfer creadigrwydd a dysgu creadigol, a sicrhau bod y ddealltwriaeth hon yn dylanwadu ar bob gweithgaredd yn y Cynllun Ysgolion Creadigol Arweiniol; a

- sicrhau bod polisïau a gweithdrefnau'n cael eu dilyn, yn enwedig y rhai ar Gyfle Cyfartal ac Iechyd a Diogelwch.

## Cymwyseddau Asiant Creadigol

Cydnabyddir y bydd gwybodaeth, profiadau a sgiliau Asiantwyr Creadigol sy'n gweithio mewn Ysgolion Creadigol Arweiniol yn amrywio. Nod y rhaglen yw adeiladu ar eu sgiliau presennol a pharhau i ddatblygu eu harfer. Mae Cyngor Celfyddydau Cymru yn dewis grŵp o Asiantwyr Creadigol cyffrous a newydd sydd wedi dangos bod ganddynt lawer o'r cymwyseddau hanfodol a nodir isod.

| Gwybodaeth | |
|---|---|
| **Hanfodol** | **Dymunol** |
| • Gwybodaeth am greadigrwydd, y broses greadigol a dysgu creadigol<br>• Gwybodaeth am y berthynas rhwng arfer creadigol Ymarferwyr Creadigol eu hunain a chreadigrwydd pobl eraill<br>• Gwybodaeth a dealltwriaeth o gydweithredu a gweithio effeithiol mewn partneriaeth<br>• Dealltwriaeth o ysgolion, sut maent wedi'u trefnu a'r heriau a wynebant<br>• Parodrwydd i ddeall a bod yn ymrwymedig i weledigaeth ac amcanion Ysgolion Creadigol Arweiniol<br>• Dealltwriaeth o bwysigrwydd eirioli dros ddefnydd ehangach ar ddulliau dysgu creadigol gyda phartneriaid<br>• Dealltwriaeth o arfer myfyriol<br>• Gwybodaeth am y cyd-destunau addysgol, cymdeithasol a diwylliannol sy'n benodol i Gymru y mae'r Cynllun Ysgolion Creadigol Arweiniol yn gweithredu ynddynt | • Dealltwriaeth o anghenion y cwricwlwm ac ysgolion<br>• Dealltwriaeth o ddisgyblion fel cyd-gyfranwyr mewn dysgu a dysgu plentyn ganolog<br>• Dealltwriaeth o'r cynllun Ysgolion Creadigol Arweiniol<br>• Dealltwriaeth o Ddysgu Creadigol a'i le o fewn theori addysgol gyfoes |

| Profiad | |
|---|---|
| **Hanfodol** | **Dymunol** |
| • Cyflwyno gweithgareddau celfyddydol cyfranogol<br>• Profiad o sefydlu perthynas hyderus a chynhyrchiol gydag amrywiaeth o rhanddeiliaid<br>• Dangos diddordeb amrywiol mewn arfer diwylliannol a rhwydweithio'n rhagweithiol<br>• Profiad o ddathlu cyflawniadau<br>• Profiad o werthuso | • Profiad o feithrin perthynas hirdymor, gynaliadwy gydag unigolion a sefydliadau<br>• Datblygu a chyflwyno rhaglenni celfyddydol, diwylliannol neu ddysgu creadigol mewn ysgolion<br>• Profiad o ysgolion fel cyd-destunau cefnogol ar gyfer dysgu creadigol |

<table>
<tr><th colspan="2">Sgiliau</th></tr>
<tr><th>Hanfodol</th><th>Dymunol</th></tr>
<tr><td><ul><li>Arbenigedd creadigol</li><li>Sgiliau eiriolaeth</li><li>Gallu i gynllunio prosiectau gan gynnwys rheoli cyllidebau a gweithio yn ôl terfynau amser</li><li>Gallu i ddod o hyd i amrywiaeth o bartneriaid, a gweithio mewn cydweithrediad â nhw</li><li>Gallu i fynegi syniadau a damcaniaethau ynghylch creadigrwydd gan ddefnyddio iaith hawdd ei deall</li><li>Gallu i ddyfeisio rhaglenni gweithgarwch gyda chydweithwyr sy’n bodloni blaenoriaethau datblygu ysgolion a’u dysgwyr</li><li>Lefel uchel o drefnu personol a rheolaeth ragorol ar amser</li><li>Sgiliau hwyluso a chyd-drafod cryf</li><li>Gallu i weithio gydag athrawon a dysgwyr fel partneriaid cydradd</li></ul></td><td><ul><li>Gallu i weithio trwy gyfrwng y Gymraeg</li><li>Annog a datblygu arfer myfyriol</li></ul></td></tr>
</table>

### Ffïoedd a threuliau

Caiff Asiantwyr Creadigol eu contractio’n uniongyrchol gan Gyngor Celfyddydau Cymru am nifer benodol o ddiwrnodau fesul ysgol, fesul blwyddyn academaidd. Bydd Cyngor Celfyddydau Cymru yn eu talu am weithio nifer benodol o ddiwrnodau’r flwyddyn yn eich ysgol ynghyd ag unrhyw dreuliau ychwanegol mae’r tîm Dysgu Creadigol wedi cytuno arnynt.

### Cymorth i Asiantwyr Creadigol

Mae Asiantwyr Creadigol sy’n cymryd rhan yn y Cynllun Ysgolion Creadigol Arweiniol yn cymryd rhan mewn rhaglen hyfforddiant ymarferol i ategu eu dealltwriaeth o’r cynllun a’u rôl ynddo.

Ochr yn ochr â hyn, mae’r ysgol yn chwarae rhan bwysig mewn cynorthwyo â dysgu Asiantwyr Creadigol fel nodwedd barhaus o’r berthynas gydweithredol. Gallai fod angen i ysgolion roi cymorth i Asiantwyr Creadigol o safbwynt:

- deall galluoedd dysgu a gwybodaeth gwahanol grwpiau oedran;

- gweithio o fewn cyfyngiadau strwythurau amser ysgolion;
- deall y galwadau cymhleth ar ysgolion ac athrawon sy'n ymdrechu am welliant ar draws agendâu addysg sydd â blaenoriaeth allweddol;
- deall data'r ysgol a'i rôl o ran gwella deilliannau ar gyfer pob dysgwr; a
- deall problemau cwricwlaidd a'r angen i fynd i'r afael â'r rhain yn ddychmygus.

## Ymarferwyr Creadigol

### Recriwtio a lleoli Ymarferwyr Creadigol

Bydd ysgolion yn y cynllun, gydag arweiniad a chefnogaeth eu Hasiant Creadigol, yn gyfrifol am recriwtio Ymarferwyr Creadigol priodol sy'n cyfateb i'w hanghenion ac yna rheoli eu gwaith. Yr Asiant Creadigol sy'n gweithio gyda'r ysgol sy'n gyfrifol am sicrhau bod partneriaethau addas yn cael eu sefydlu, a fydd yn arwain at ddatblygu gweithgarwch prosiect sy'n arloesol, cyffrous ac wedi'i lunio'n briodol.

Bydd ysgolion yn chwarae rhan bwysig mewn cynorthwyo Ymarferwyr Creadigol i ddeall anghenion a blaenoriaethau dysgu'r ysgol fel nodwedd barhaus o'r berthynas gydweithredol.

### Yr Ymarferydd Creadigol

Dylai Ymarferwyr Creadigol ddangos ymrwymiad i ddatblygu rhagoriaeth mewn arfer creadigol a meddu ar y gallu i hwyluso gweithgareddau dysgu creadigol mewn ysgol yn effeithiol. Bydd Ymarferwyr Creadigol yn cymryd rhan weithgar yng nghamau cynllunio a datblygu prosiect Ysgol Arweiniol Greadigol mewn ysgol cyn bod cynlluniau prosiect yn cael eu llunio'n derfynol.

Mae Ymarferwyr Creadigol yn datblygu perthynas waith gydag athrawon a staff eraill yr ysgol, a bydd ymddiriedaeth a didwylledd yn nodweddu'r berthynas. Mae datblygu cymuned ddysgu greadigol yn yr ysgol, yn seiliedig ar arfer cydweithredol a myfyriol, yn allweddol ar gyfer ymwreiddio newid cynaliadwy. Mae angen iddynt allu rhannu eu teithiau creadigol personol gyda dysgwyr a dangos llwybrau i yrfaoedd yn y sector creadigol. Dylent allu uniaethu â phobl ifanc mewn ffyrdd sy'n wahanol i'r berthynas rhwng yr athro a'r dysgwyr. Mae'n anodd diffinio'r gwahaniaeth hwn, ond fel arfer, caiff ei nodweddu gan fwy o anffurfioldeb, didwylledd ac arfer wedi'i gyd-drafod nag a welir fel arfer yn y berthynas rhwng athrawon a disgyblion.

Dylai cynlluniau prosiect mewn ysgol gynnwys amser i ganiatáu am gynllunio manwl rhwng disgyblion, athrawon ac Ymarferwyr Creadigol. Mewn Ysgolion Creadigol Arweiniol, mae athrawon a staff eraill yr ysgol bob amser yn gweithio ochr yn ochr ag Ymarferwyr Creadigol yn yr ystafell ddosbarth, mewn ffyrdd sy'n caniatáu i sgiliau'r naill a'r llall ategu ei gilydd. Mae cryfder y bartneriaeth gydweithredol i'w weld yn nealltwriaeth pob partner o'i sgiliau gwahanol ac ategol. Dylai Ymarferwyr Creadigol gynnal safbwynt partner allanol, tra bod yr athro yn defnyddio'i arbenigedd a'i wybodaeth am anghenion a galluoedd disgyblion yn llawn.

## Recriwtio a dewis Ymarferwyr Creadigol

Bydd ysgolion, yn gweithio gyda'u Hasiantwyr Creadigol, yn recriwtio a dewis Ymarferwyr Creadigol i weithio yn eu hysgol. Bydd Ymarferwyr Creadigol yn dod o amrywiaeth eang o broffesiynau creadigol fel artistiaid a dylunwyr, gweithwyr theatr, cerddoriaeth a dawns proffesiynol, beirdd, awduron, gwneuthurwyr ffilmiau, artistiaid digidol a dylunwyr graffeg. Gallant fod yn hunangyflogedig neu'n unigolion penodol sy'n gweithio mewn sefydliad y celfyddydau, diwylliant neu dreftadaeth. Mae arweiniad pellach ar recriwtio a dewis Ymarferwyr Creadigol ar gael yn adrannau ymarferol y llawlyfr hwn.

## Contractio a defnyddio Ymarferwyr Creadigol

Cyfrifoldeb yr ysgol, gydag arweiniad a chymorth eu Hasiant Creadigol, yw gofalu am drefniadau contractio a defnyddio Ymarferwyr Creadigol. Mae'n bwysig bod yr ysgol yn datblygu ei gallu i nodi'r math cywir o Ymarferwyr Creadigol i gyfateb i'w hanghenion ac yna i reoli gwaith yr ymarferwyr. Bydd dysgu gwneud hyn yn dda yn helpu'r ysgol i gynnal dysgu creadigol pan fydd yn gadael y Cynllun Ysgolion Creadigol Arweiniol yn y pen draw.

Bydd ysgolion yn cynnal gwiriadau manwl y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd ar bob unigolyn sy'n cael ei ddewis yn Ymarferwr Creadigol.

## Cymwyseddau Ymarferwyr Creadigol

Cydnabyddir y bydd gwybodaeth, profiad a sgiliau Ymarferwyr Creadigol sy'n gweithio mewn Ysgolion Creadigol Arweiniol yn amrywio. Nod y rhaglen yw adeiladu ar sgiliau presennol Ymarferwyr Creadigol a'u cefnogi i ddatblygu eu harfer. Er mwyn cael contract gan ysgol i gyflwyno gwasanaethau Ymarferwr Creadigol, bydd angen i unigolion ddangos eu bod yn gallu bodloni llawer o'r cymwyseddau hanfodol isod.

| Gwybodaeth | |
|---|---|
| **Hanfodol** | **Dymunol** |
| • Gwybodaeth am y berthynas rhwng eu harfer creadigol eu hunain a chreadigrwydd pobl eraill<br>• Gwybodaeth am, a dealltwriaeth o, gydweithredu a gweithio effeithiol mewn partneriaeth<br>• Dealltwriaeth o ysgolion, sut cânt eu trefnu a'r heriau a wynebant<br>• Parodrwydd i ddeall a bod yn ymrwymedig i weledigaeth ac amcanion y Cynllun Ysgolion Creadigol Arweiniol<br>• Dealltwriaeth o arfer myfyriol<br>• Gwybodaeth am y cyd-destunau addysgol, cymdeithasol a diwylliannol y mae Ysgolion Creadigol Arweiniol yn gweithredu ynddynt | • Dealltwriaeth o anghenion y cwricwlwm a'r ysgol a'r angen i gynllunio'n ddychmygus i fynd i'r afael â'r rhain<br>• Dealltwriaeth o ddisgyblion fel cyd-gyfranwyr mewn dysgu a dysgu plentyn ganolog<br>• Dealltwriaeth o Ysgolion Creadigol Arweiniol<br>• Dealltwriaeth o Ddysgu Creadigol a'i le o fewn theori addysgol gyfoes<br>• Dealltwriaeth o alluoedd dysgu a gwybodaeth gwahanol grwpiau oedran |

| Profiad | |
|---|---|
| **Hanfodol** | **Dymunol** |
| • Cyflwyno gweithgareddau wyneb yn wyneb<br>• Profiad o ddathlu cyflawniadau<br>• Profiad o werthuso | • Cyflwyno rhaglenni celfyddydol, diwylliannol neu ddysgu creadigol mewn ysgolion<br>• Profiad o ysgolion fel cyd-destunau cefnogol ar gyfer dysgu creadigol<br>• Profiad o sefydlu perthynas hyderus a chynhyrchiol gydag ysgolion |

| Sgiliau | |
|---|---|
| **Hanfodol** | **Dymunol** |
| • Arbenigedd creadigol<br>• Sgiliau eiriolaeth<br>• Gallu i gynllunio prosiectau gan gynnwys rheoli cyllidebau a gweithio yn ôl terfynau amser<br>• Gallu i weithio'n ddigymell lle y bydd hyn yn creu amodau sy'n croesawu risg a lle y gall 'arloesi disgybledig' ffynnu<br>• Gallu i weithio gydag athrawon a dysgwyr fel partneriaid cydradd | • Yr iaith Gymraeg<br>• Modelu cymryd risgiau fel cyfle cadarnhaol i helpu pobl eraill i gamu allan o'r hyn sy'n gyfarwydd iddynt i dir llai cyfarwydd |

### Ffïoedd a threuliau

Bydd ysgolion yn contractio Ymarferwyr Creadigol. Bydd yr ysgol yn pennu nifer y diwrnodau y cânt eu contractio. Bydd cyfradd ddyddiol o £250 yn cael ei dalu i Ymarferwyr Creadigol. Mae costau teithio yn destun cytundeb gyda'r ysgol a byddant yn cael eu nodi yn eu contract.

### Cymorth i Ymarferwyr Creadigol

Bydd Ymarferwyr Creadigol sy'n cymryd rhan mewn Ysgolion Creadigol Arweiniol yn cael rhaglen hyfforddiant ymarferol ac ysbrydoledig i ategu eu dealltwriaeth o'r cynllun a'u rôl ynddo. Rhaid i Ymarferwyr Creadigol fynychu hyfforddiant a byddant yn cael gwybod y dyddiadau a'r lleoliadau.

Ochr yn ochr â hyn, bydd ysgolion yn chwarae rhan bwysig mewn cynorthwyo dysgu Ymarferwyr Creadigol fel nodwedd barhaus o'r berthynas gydweithredol. Gallai fod angen i ysgolion roi cymorth i Ymarferwyr Creadigol gyda:

- deall galluoedd dysgu a gwybodaeth gwahanol grwpiau oedran;
- gweithio o fewn cyfyngiadau strwythurau amser ysgolion;
- deall y galwadau cymhleth ar ysgolion ac athrawon sy'n ymdrechu am welliant ar draws agendâu addysg â blaenoriaeth allweddol;
- deall data ysgol a'i rôl yn gwella deilliannau i bob dysgwr; a
- deall materion cwricwlaidd a'r angen i gynllunio'n ddychmygus i fynd i'r afael â'r rhain.

## Disgyblion

### Egwyddorion

Egwyddor graidd gwaith Ysgolion Creadigol Arweiniol yw bod llais y disgybl yn cael ei werthfawrogi'n iawn. Dylid gosod plant a phobl ifanc wrth wraidd y broses benderfynu a dylid datblygu eu gallu i arwain. Credwn fod Ysgolion Creadigol Arweiniol yn fwyaf effeithiol pan fydd disgyblion yn chwarae rhan allweddol yn eu harwain, eu llywio ac yn cymryd cyfrifoldeb am eu dysgu eu hunain.

Y gred gyffredinol yw bod llais cadarn ac effeithiol y disgybl yn nodwedd ganolog o ysgolion llwyddiannus. Rhagwelwn y bydd ysgolion sy'n cymryd rhan yn y rhaglen fel arfer â hanes da o ddatblygu mecanweithiau i sicrhau bod plant a phobl ifanc yn datblygu'r gallu i chwarae rhan arwain weithgar ym mywyd yr ysgol.

### Nodweddion ymarferol

Bwriedir i systemau rheoli Cynllun Ysgolion Creadigol Arweiniol wneud y mwyaf o ddatblygu llais y disgybl trwy gynllunio, cyflwyno, gwerthuso a dathlu gweithgarwch prosiect. Gwnânt hynny fel a ganlyn:

- mae cynnwys plant mewn penderfyniadau cyn gynted â phosibl am gwmpas a strwythur y gwaith prosiect yn y cam cynllunio yn ofyniad sydd wedi'i amlinellu yn y cynllun ac yn y Ffurflenni Cynllunio Prosiect;

- yn ystod prosiectau, mae Ffurflenni Myfyrio ar Sesiwn yn cynnwys y gofyniad i ymgynghori â disgyblion am y sesiwn ac am gynnydd parhaus y prosiect;

- trwy gydol prosiectau, caiff disgyblion eu hannog i gofnodi eu gweithgarwch, eu profiad a'u dysgu, gan ddefnyddio pa gyfryngau bynnag sy'n briodol iddynt. Mae'r cofnodion cyfoethog hyn o brofiad yn dod yn adnodd pwysig i ddisgyblion fyfyrio ar eu dysgu eu hunain, gan ddyfnhau ac ymestyn y dysgu hwnnw yn y broses;

- mae'r defnydd ar y Fframwaith Cynllunio a Gwerthuso wedi'i strwythuro ar sail yr egwyddor bod disgyblion yn rhoi sylwadau ar eu dysgu eu hunain, ynghyd â dysgu eu hathrawon a'r Ymarferwyr Creadigol sy'n gweithio gyda nhw. Hefyd, rhoddant sylwadau ar faterion ehangach yn ymwneud â'r prosiect a'i ddeiliannau. Pan ddeuir i farn derfynol am ansawdd ac effaith gyffredinol prosiectau, mae barn disgyblion yn cael yr un statws â barn athrawon ac Ymarferwyr Creadigol. Caiff y tri safbwynt eu triongli i gyflawni darlun llawn o ddeilliannau'r prosiect; a

- phan gyflwynir adroddiadau ar brosiectau Ysgolion Creadigol Arweiniol, dylai barn disgyblion fod yn llais allweddol yn yr adroddiadau hynny. Caiff disgyblion eu hannog i fod yn eiriolwyr ar ran yr ysgol, gan roi cyflwyniadau am weithgarwch y prosiect a chynrychioli'r ysgol mewn cynadleddau, seminarau a digwyddiadau rhwydweithio, fel y bo'n briodol i'w hoedran a'u gallu.

### Cynghorau ysgol

Mae ysgolion yn datblygu ystod o ddulliau i helpu disgyblion i ddatblygu'r gallu i ymgymryd â rolau arwain a phenderfynu. Mae'r Cynllun Ysgolion Creadigol Arweiniol yn ymdrechu i adeiladu ar arfer sydd eisoes wedi'i sefydlu yn hytrach na gorfodi ymagwedd benodol. Disgwylir i ysgolion sefydlu systemau priodol i sicrhau bod rôl wirioneddol gan ddisgyblion wrth lunio ac arwain y Cynllun Ysgolion Creadigol Arweiniol, a bod y systemau hyn mor gynhwysol â phosibl.

Mae rhai ysgolion wedi darganfod bod sefydlu grŵp ymgynghorol ar wahân i bobl ifanc yn cyfrannu'n gadarnhaol at ddatblygu llais y disgybl yn yr ysgol a sicrhau bod dewisiadau pobl ifanc yn cael eu hadlewyrchu yn ffurf a chynnwys y gwaith prosiect fel Ysgol Greadigol Arweiniol. Mae pobl ifanc sy'n cymryd rhan mewn grwpiau o'r natur hwn yn datblygu medrau arwain hanfodol. Fe allant fod yn llysgenhadon ar gyfer y rhaglen, yn ymweld ag ysgolion eraill, cynrychioli'r ysgol mewn cynadleddau a digwyddiadau eraill, a chwarae rhan weithgar mewn rhwydweithiau cenedlaethol o bobl ifanc.

#### Pobl ifanc yn dewis ymarferwyr

Dull cymharol syml o ddatblygu perchenogaeth pobl ifanc ar y rhaglen yw eu cynnwys wrth ddewis Ymarferwyr Creadigol. Mae ysgolion mewn rhaglenni dysgu creadigol eraill sydd wedi gwneud hyn wedi sylwi ei fod yn arwain at lawer o fanteision, gan gynnwys:

- mae pobl ifanc yn sylweddoli bod angen iddynt ddatblygu sgiliau er mwyn recriwtio Ymarferwyr Creadigol yn deg, ac maent yn ymroi'n gadarnhaol i ennill y sgiliau hynny;

- mae pobl ifanc yn datblygu'r gallu i weithio'n gydweithredol ac adeiladu eu Harferion Meddwl Creadigol ar y cyd; ac

- mae pobl ifanc yn teimlo'u bod yn chwarae rhan bwysicach fel rhanddeiliaid gweithredol. Mae hyn yn arwain at lefelau llawer uwch o gyfranogi yn y cynllun.

## Staff ysgol a chymuned yr ysgol

### Arweinyddiaeth a'r uwch dîm arweinyddol

Mae'n rhaid cael cydweithrediad a chefnogaeth lawn y Pennaeth a'r uwch dîm arweinyddol gan Ysgolion Creadigol Arweiniol. Rhaid i'r cymorth hwn gael ei adlewyrchu yn ethos a gwerthoedd yr uwch dîm arweinyddol, ynghyd â chysylltiad â'r rhaglen ar lefel ymarferol.

### Athrawon sy'n cymryd rhan

#### Egwyddorion

Fel yr amlygwyd yn flaenorol, yn ganolog i'r Cynllun Ysgolion Creadigol Arweiniol y mae'r gred fod addysgu yn ei hanfod yn broffesiwn creadigol a bod athrawon wedi hen arfer â dod o hyd i atebion creadigol i heriau cymhleth. Trwy baru sgiliau ategol athrawon ag Ymarferwyr Creadigol, mae Ysgolion Creadigol Arweiniol yn helpu i ryddhau creadigrwydd pawb sy'n gysylltiedig, fel bod ymagweddau ffres a deniadol at addysgu a dysgu yn cael eu datblygu trwy brosesau cydweithredol.

## Nodweddion ymarferol

Dylai athrawon sy'n cymryd rhan ddangos eu hymrwymiad i ddatblygu ymagweddau creadigol at addysgu a dysgu gan weithio ochr yn ochr ag Ymarferwyr Creadigol a disgyblion yn eu hystafell ddosbarth ac mewn amgylcheddau dysgu eraill. Cydnabyddant fod cryfder y bartneriaeth gydweithredol yn eu dealltwriaeth o'r sgiliau gwahanol ac ategol sy'n gysylltiedig; bod yr Ymarferwr Creadigol yn dod â meddylfryd allanol tra'u bod nhw fel athrawon yn defnyddio'u harbenigedd a'u gwybodaeth am y cwricwlwm ac am anghenion a galluoedd eu disgyblion.

Bydd yr athrawon sy'n cymryd rhan yn cynorthwyo â dewis Ymarferwyr Creadigol a byddant yn gweithio gyda nhw a'r disgyblion sy'n cymryd rhan i lunio cynllun prosiect manwl i fodloni'r deilliannau cytunedig. Yn ystod y prosiect, byddant yn parhau i gymryd rhan mewn cynllunio ar gyfer sesiynau, myfyrio parhaus, a chofnodi a chasglu tystiolaeth o ddeilliannau'r gwaith prosiect. Byddant yn paratoi ar gyfer sgyrsiau gwerthuso'r prosiect ac yn cymryd rhan ynddynt. Byddant yn rhannu eu dysgu yn yr ysgol trwy gymryd rhan weithgar yn Rhwydwaith Dysgu Proffesiynol yr ysgolion.

Bwriedir i systemau rheoli'r Cynllun Ysgolion Creadigol Arweiniol wneud y mwyaf o gyfraniadau'r athrawon sy'n cymryd rhan. Bydd athrawon yn datblygu syniadau newydd sy'n ategu addysgu a dysgu creadigol a gweithio'n greadigol mewn partneriaeth, ac sy'n helpu i wella cyrhaeddiad, cyflawniad a deilliannau i ddisgyblion. Mae'r cynllun yn cynnwys yr athrawon sy'n cymryd rhan mewn:

- dylanwadu ar benderfyniadau cyn gynted â phosibl ar gwmpas a strwythur y gwaith prosiect;
- gweithio ochr yn ochr â'r Ymarferwyr Creadigol yn yr ystafell ddosbarth neu amgylcheddau dysgu eraill. Mae'n ofynnol iddynt gyfrannu at lenwi'r Ffurflenni Myfyrio ar Sesiwn a chynnwys disgyblion yn y myfyrio parhaus;
- cofnodi'r gweithgarwch, eu profiad a'u dysgu, a chynorthwyo disgyblion i wneud yr un peth. Daw'r cofnodion hyn o brofiad yn adnodd pwysig i athrawon fyfyrio ar eu dysgu, gan ddyfnhau ac ymestyn y dysgu hwnnw yn y broses;
- cynllunio a gwerthuso gofalus gan ddefnyddio Fframwaith Cynllunio a Gwerthuso Ysgolion Creadigol Arweiniol. Mae hwn wedi'i strwythuro ar sail yr egwyddor bod athrawon yn rhoi sylwadau ar eu dysgu eu hunain ynghyd â dysgu'r disgyblion a'r Ymarferwyr Creadigol sy'n gweithio gyda nhw. Maent hefyd yn rhoi sylwadau ar faterion ehangach yn ymwneud â'r prosiect a'i ddeilliannau; a
- gweithredu fel eiriolwyr dros ddysgu creadigol ac wrth roi cyflwyniadau am weithgarwch y prosiect a chynrychioli'r ysgol mewn cynadleddau, seminarau a digwyddiadau rhwydweithio.

### Cymorth i athrawon sy’n cymryd rhan

Bydd athrawon sy’n cymryd rhan yn mynychu rhaglen hyfforddiant ymarferol ac ysbrydoledig i ategu eu dealltwriaeth o’r rhaglen a’u rôl ynddi.

Bydd athrawon sy’n cymryd rhan hefyd yn cael y cyfle i chwarae rhan weithgar mewn digwyddiadau rhannu a rhwydweithio cenedlaethol Ysgolion Creadigol Arweiniol.

## Athrawon a staff eraill

Mae Ysgolion Creadigol Arweiniol wedi ymrwymo i rannu a dylanwadu ar arfer yn eu hysgol eu hunain fel bod ymagweddau creadigol at addysgu a dysgu yn cael eu hannog yn weithgar y tu hwnt i’r athrawon sy’n cymryd rhan yn unig.

Fel Ysgol Greadigol Arweiniol, bydd eich Asiant Creadigol a’ch Cydlynydd Ysgol yn helpu i sefydlu Rhwydwaith Dysgu Proffesiynol i rannu a dylanwadu ar arfer.

## Cynnwys rhieni ac aelodau’r gymuned

Mae Ysgolion Creadigol Arweiniol yn cynnig llawer o gyfleoedd i rieni ac aelodau’r gymuned chwarae rhan fwy gweithgar yn yr ysgol. Mae ysgolion wedi hen arfer â chroesawu rhieni fel cynulleidfaoedd a defnyddiant ddigwyddiadau i helpu rhieni i deimlo’n gartrefol yn amgylchedd yr ysgol. Mae Ysgolion Creadigol Arweiniol yn annog ysgolion i adeiladu ar arfer sydd eisoes yn bodoli a chynnwys rhieni mewn gweithgarwch prosiect lle bynnag y gallai hyn fod yn ffordd briodol o ddefnyddio sgiliau rhieni a chynyddu ymwneud rhieni â dysgu eu plant.

Mae ymchwil mewn rhaglenni dysgu creadigol eraill wedi dangos:

- bod creadigrwydd yn gwella’r cyfathrebu rhwng y cartref a’r ysgol, gan fod plant yn siarad yn fwy brwdfrydig am beth maent wedi bod yn ei wneud yn yr ysgol. Yna, mae rhieni’n cael eu symbylu i ddysgu rhagor amdano;
- bod prosiectau creadigol yn gwneud disgyblion yn hapusach ac yn fwy brwdfrydig am fod yn yr ysgol, gan gynyddu symbyliad ym mhob maes dysgu;
- bod rhaglenni creadigol yn cael effaith hirdymor arwyddocaol ar sgiliau, hyder a dysgu ehangach plant;
- bod cwricwlwm creadigol yn cyfrannu’n gryf at ethos arbennig mewn ysgol, lle y mae plant a theuluoedd yn ymfalchïo yn eu hysgol. Mae hyn yn arbennig o wir pan fydd plant yn

perfformio neu'n arddangos mewn mannau cyhoeddus fel rhan o brosiectau, gan ddod â'r ysgol i'r gymuned;

- bod prosiectau creadigol yn adlewyrchu cefndiroedd, diddordebau a gweithgareddau teuluoedd ac, o ganlyniad, mae rhieni'n teimlo'u bod yn gallu cefnogi dysgu eu plant oherwydd gallant gyfrannu eu gwybodaeth a'u sgiliau eu hunain;

- bod rhieni'n darganfod bod dysgu'n digwydd mewn amrywiaeth o ffyrdd y gallant eu cefnogi a chymryd rhan ynddynt, trwy brosiectau creadigol;

- bod prosiectau creadigol yn cefnogi plant fel dysgwyr unigol, gan eu helpu i gyflawni trwy ddysgu mewn ffyrdd sy'n addas i'w harddulliau dysgu personol;

- bod rhieni'n dweud y byddent yn dewis ysgol pe bai wedi ymroi i gwricwlwm creadigol. Maent yn gwerthfawrogi amrywiaeth y profiadau y mae eu plant yn eu cael yn yr amgylcheddau hyn; a

- bod cwricwlwm creadigol yn anfon y neges bod rhieni'n bwysig i'r ysgol, trwy wella'r amgylchedd a chodi lefel y diddordeb yn yr hyn sy'n digwydd yn yr ysgol.

Mae ffyrdd o gynyddu cysylltiad rhieni yn cynnwys:

- gwahodd rhieni i berfformiadau ac arddangosfeydd;

- gwahodd rhieni i gymryd rhan mewn sesiynau ymarferol fel helpwyr neu gyfranwyr gwirfoddol; a

- chynnwys rhieni wrth roi cyhoeddusrwydd i weithgarwch prosiect.

## Partneriaid pwysig eraill

### Consortia Addysg Rhanbarthol ac Ymgynghorwyr Her

Dylai eich Asiant Creadigol ddatblygu perthynas waith â'r Ymgynghorwyr Her sy'n gweithio gyda'ch ysgol. Bydd hyn yn sicrhau bod gweithgarwch prosiect yn cyd-fynd ag anghenion datblygu ehangach eich ysgol ac y gall yr adnoddau sydd ar gael ar gyfer gwella'r ysgol gael eu cyfuno i sicrhau eu bod mor effeithiol â phosibl.

## Estyn

Mae'n bwysig i Gynllun Datblygu'r Ysgol gyfeirio at eich gweithgarwch Ysgolion Creadigol Arweiniol fel y bydd modd cyfeirio ato pan fydd Estyn yn cynnal ei arolygiad nesaf.

Os yw Estyn wedi cynnal arolygiad o'ch ysgol yn ddiweddar, gallech ystyried defnyddio gweithgarwch Ysgolion Creadigol Arweiniol i fynd i'r afael â meysydd pryder sy'n cael eu codi gan yr arolygiad. Yn rhyngwladol, mae llawer o enghreifftiau o gymryd rhan mewn rhaglenni dysgu creadigol sydd wedi helpu ysgolion fynd i'r afael â pherfformiad isel fel rhan o'u cynlluniau gwella ôl-arolygiad.

## Tîm Ysgolion Creadigol Arweiniol

Cafodd eich cais i fod yn Ysgol Greadigol Arweiniol ei asesu gan y staff arbenigol yn nhîm Dysgu Creadigol Cyngor Celfyddydau Cymru. Mae gan yr arweinwyr prosiect hyn ddealltwriaeth fanwl o'r Cynllun. Byddant yn deall eich disgwyliadau o'r rhaglen ac yn gweithio gyda chi a'ch Asiant Creadigol i'ch helpu i wireddu'r rhain. Byddant wrth law i siarad â chi am ddatblygu eich cynllun a'ch cyllideb, a byddant yn gyfrifol am gymeradwyo'r dogfennau hynny. Rydym yn eich annog i gynnal deialog gyda'ch Arweinydd Prosiect, gan roi gwybod iddo am unrhyw broblemau neu bryderon cyn gynted ag y gallwch, a rhoi gwybod iddynt am gyflwyno'ch prosiect. Byddant yn helpu i chi greu cysylltiadau ag ysgolion eraill yn y Cynllun a byddant yn trefnu digwyddiadau rhwydweithio. Rhan arall o'u rôl yw sicrhau bod eich prosiect unigol yn cyd-fynd â nodau'r Cynllun Ysgolion Creadigol Arweiniol a'i fod yn cael ei gyflwyno yn briodol, ar amser ac i'r safon ofynnol.

# Atodiad i Adran 2: **Tabl crynhoi rolau a chyfrifoldebau**

## Trosolwg o rolau a chyfrifoldebau mewn Ysgolion Creadigol Arweiniol

Mae'r tabl hwn yn cynnig trosolwg defnyddiol o'r prif rolau a chyfrifoldebau ar gyfer gweithgareddau penodol mewn Ysgolion Creadigol Arweiniol dros dri cham y gwaith prosiect, sef y cynllunio, y gweithgarwch, a'r myfyrio a'r gwerthuso terfynol. Ni fwriedir iddo roi darlun cyflawn o'r holl weithgareddau cysylltiedig; yn hytrach, ei nod yw ategu trafodaethau defnyddiol rhwng y partneriaid am rolau a chyfrifoldebau. Er bod y gweithgareddau wedi'u cyflwyno ar ffurf rhestr, gallai rhai orgyffwrdd neu gallai fod angen mynd yn ôl at rai ohonynt yn ddiweddarach yn y broses.

CY = Cydlynydd Ysgol
ACy = Athrawon sy'n Cymryd Rhan
AC = Asiant Creadigol
D = Dysgwyr
YC = Ymarferwr Creadigol
YCA = Ysgolion Creadigol Arweiniol

| Cynllunio'r prosiect | CY | AC | YC | ACy | D |
|---|---|---|---|---|---|
| Cyflwyno'r Asiant Creadigol i'r ysgol ehangach | ✓ | | | | |
| Cyflwyno'r YCA i'r ysgol ehangach | ✓ | ✓ | | | |
| Cynllunio ar gyfer y gwaith cynllunio | ✓ | ✓ | | | |
| Cyfarfod â'r athrawon a'r dysgwyr a fydd yn cymryd rhan uniongyrchol yn y prosiect | ✓ | ✓ | | | |
| Adolygu Cynllun Datblygu'r Ysgol (CDY) a sefydlu'r man cychwyn, cytuno ar ffocws y gwaith prosiect a sicrhau ei fod yn cyfrannu at gyflawni'r CDY | ✓ | ✓ | | | |
| Sefydlu a hwyluso Cymuned Ddysgu Broffesiynol yr YCA | ✓ | ✓ | | | |
| Sicrhau bod llais cryf gan ddysgwyr | | ✓ | | | |
| Recriwtio Ymarferydd/wyr Creadigol | ✓ | ✓ | | ✓ | ✓ |
| Cyflwyno'r Ymarferydd/wyr Creadigol i'r ysgol (gan gynnwys ymsefydlu ar bolisïau a gweithdrefnau) | ✓ | | | | |
| Cytuno ar ddeilliannau'r prosiect a llunio trefniadau cadarn ar gyfer gweithio mewn partneriaeth | ✓ | ✓ | | | |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Llunio cynllun prosiect manwl i fodloni'r deilliannau cytunedig | | | ✓ | ✓ | ✓ |
| Rheoli'r rhaglen/prosiect gan yr ysgol – datgloi amser y cwricwlwm, athrawon, dysgwyr ac adnoddau a dirprwyo i eraill yn yr ysgol | ✓ | | | | |
| Hwyluso'r gwaith o drosi cynlluniau a data meincnodi allweddol i'r Ffurflen(ni) Cynllunio Prosiect | ✓ | ✓ | | | |

| Gweithgarwch | CY | AC | YC | ACy | D |
|---|---|---|---|---|---|
| Cynllunio a chynnal cyfarfodydd cynllunio sesiynau a myfyrio rheolaidd trwy gydol y cam cyflwyno | | | ✓ | ✓ | ✓ |
| Cofnodi a chasglu tystiolaeth sy'n dilysu'r cynnydd, y canfyddiadau allweddol a'r effaith ar ddysgu | | | ✓ | ✓ | ✓ |
| Llenwi Ffurflenni Myfyrio ar Sesiwn | | | ✓ | ✓ | ✓ |
| Cofnodi gwariant y prosiect a derbynebau gwariant | ✓ | | | | |
| Cynllunio a hwyluso Cymuned Ddysgu Broffesiynol yr YCA | ✓ | ✓ | | | |
| Cymryd rhan yng Nghymuned Ddysgu Broffesiynol yr YCA | | | ✓ | ✓ | ✓ |
| Cynnal cysylltiad rheolaidd i sicrhau bod gwaith y prosiect yn mynd rhagddo fel y dylai | ✓ | ✓ | | | |
| Sicrhau bod cofnodi a myfyrio parhaus yn digwydd yn unol â'r Fframwaith Cynllunio a Gwerthuso | ✓ | ✓ | | | |
| Sicrhau bod athrawon yn chwarae rhan weithgar, gan ddatblygu eu harfer ac ymwreiddio dysgu | | ✓ | | | |
| Sicrhau bod llais cryf gan ddysgwyr | | ✓ | | | |
| Sicrhau gweithio mewn partneriaeth | | ✓ | | | |
| Arsylwi gwaith prosiect | | ✓ | | | |
| Mynychu digwyddiadau rhwydweithio | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |

| Myfyrio a gwerthuso terfynol | CY | AC | YC | ACy | D |
|---|---|---|---|---|---|
| Trefnu lle, grwpiau ac amser rhyddhau ar gyfer sgyrsiau gwerthuso | ✓ | | | | |
| Cynllunio ar gyfer y sgyrsiau gwerthuso a'u hwyluso | | ✓ | | | |
| Paratoi ar gyfer y sgyrsiau gwerthuso a chymryd rhan ynddynt | ✓ | | ✓ | ✓ | ✓ |
| Cyfrannu tystiolaeth a dogfennau ar gyfer y Ffurflen(ni) Gwerthuso Prosiect a'r Ffurflen Gyllideb | | | ✓ | ✓ | ✓ |
| Llenwi'r Ffurflen(ni) Gwerthuso Prosiect a'r Ffurflen Gyllideb | ✓ | ✓ | | | |
| Rhannu canfyddiadau allweddol ac effaith ar draws cymuned yr ysgol | ✓ | | ✓ | ✓ | ✓ |
| Sicrhau bod y dysgu wedi'i ymwreiddio | ✓ | ✓ | | | |
| Nodi'r camau nesaf i'r ysgol | ✓ | ✓ | | | |
| Bod yn llysgennad ar ran y Cynllun Ysgolion Creadigol Arweiniol | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| Mynychu digwyddiadau rhwydweithio | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |

# Adran 3: Nodweddion ymarferol bod yn Ysgol Greadigol Arweiniol

## Rheoli cyllideb

### Rôl adran gyllid yr ysgol

Rhaid i ysgolion yn y Cynllun Ysgolion Creadigol Arweiniol reoli eu cyllidebau prosiect eu hunain a byddant yn derbyn eu grant gan Gyngor Celfyddydau Cymru fesul rhandaliad. Yn gyffredinol, mae'r amserlen dalu flynyddol fel a ganlyn:

Rhandaliad cyntaf o 45% o gyfanswm eich grant yn sgil llenwi eich Ffurflen(ni) Cynllunio Prosiect a'ch Ffurflen Gyllideb yn foddhaol; ac

Ail randaliad o 45% yn sgil cwblhau gweithgareddau blwyddyn 1 yn foddhaol; a

Thrydydd taliad o 10% o gyfanswm y grant ar ddiwedd Blwyddyn 2 ac yn sgil derbyn eich Ffurflen(ni) Cynllunio Prosiect a'ch Ffurflen Gyllideb.

Felly, rhaid i adrannau cyllid ysgolion a rheolwyr busnes/bwrsariaid ysgolion sicrhau bod materion cyllidebol yn cael eu rheoli yn unol â chytundeb yr ysgol â Chyngor Celfyddydau Cymru.

Dylai'r Asiant Creadigol gytuno ar holl ddogfennau'r gyllideb gyda Chydlynydd yr Ysgolion Creadigol Arweiniol yn yr ysgol a'r sawl sy'n gyfrifol am gyllidebau, cyn eu hanfon at eich Arweinydd Prosiect Ysgolion Creadigol Arweiniol i'w cymeradwyo.

> Sylwer: Mae Ymarferwyr Creadigol fel arfer yn gweithio'n llawrydd ac mae angen iddynt gael eu talu'n brydlon. Cytunwch ar gontract ac amserlen dalu nad yw'n rhoi eich partneriaid allanol o dan straen ariannol amhriodol.

### Sut dylai cyllid yr Ysgolion Creadigol Arweiniol gael ei ddefnyddio

Dylai cyllid Ysgolion Creadigol Arweiniol gael ei ddefnyddio'n bennaf i dalu am Ymarferwyr Creadigol proffesiynol ac am ddeunyddiau sy'n gysylltiedig â'ch gwaith prosiect fel Ysgol Greadigol Arweiniol. Ni ellir defnyddio'r cyllid i brynu caledwedd fel iPads, camerâu ac ati.

## Recriwtio a dewis Ymarferwyr Creadigol

Bydd ysgolion, gan weithio gyda'u Hasiantwyr Creadigol, yn recriwtio a dewis Ymarferwyr Creadigol i weithio yn eu hysgol. Mae'n bwysig cymryd amser dros y broses hon. Bydd mwyafrif eich grant fel Ysgol Greadigol Arweiniol yn cael ei wario ar ffioedd ar gyfer Ymarferwyr Creadigol proffesiynol.

## Arfer gorau

Mae'r egwyddorion canlynol yn nodweddu arfer gorau yn y maes hwn:

- Dylid recriwtio Ymarferwyr Creadigol i ddechrau trwy broses ddewis wedi'i threfnu gan yr Asiant Creadigol a'r Cydlynydd Ysgol sy'n asesu eu gwybodaeth, eu sgiliau a'u profiad o weithio mewn lleoliadau'r celfyddydau a dysgu creadigol;

- Dylai hanes yr Ymarferwyr Creadigol ddangos rhagoriaeth mewn arfer creadigol ac mewn hwyluso gweithgareddau'r celfyddydau a dysgu creadigol;

- Dylai Ymarferwyr Creadigol gymryd rhan mewn cynllunio a datblygu'r prosiect o'r cyfle cynharaf posibl, a chyn cyflwyno'r Ffurflen Cynllunio Prosiect i Arweinydd Prosiect Ysgolion Creadigol Arweiniol;

- Ble bynnag y bo'n bosibl, dylai Ymarferwyr Creadigol fod yn gysylltiedig ag ysgolion am gyfnod hirdymor i ddatblygu perthynas waith gyda staff yr ysgol, sy'n cael ei nodweddu gan ymddiriedaeth a didwylledd. Datblygu cymuned ddysgu greadigol yn yr ysgol yn seiliedig ar arfer cydweithredol a myfyriol yw'r allwedd i ymwreiddio newid cynaliadwy;

- Dylai cynlluniau prosiectau gynnwys dyraniad amser priodol er mwyn i ddisgyblion, athrawon ac Ymarferwyr Creadigol allu cynllunio'n fanwl. Dylid adlewyrchu hyn wrth gynllunio cyllideb;

- Dylai athrawon a staff eraill ysgol bob amser weithio ochr yn ochr ag Ymarferwyr Creadigol yn yr ystafell ddosbarth, mewn ffyrdd sy'n caniatáu i sgiliau'r naill a'r llall ategu ei gilydd. Mae cryfder y bartneriaeth gydweithredol yn nealltwriaeth pob partner o wahaniaethau a nodweddion ategol eu setiau sgiliau. Dylai Ymarferwyr Creadigol gynnal safbwynt partner allanol, tra bod yr athro yn defnyddio'i arbenigedd a'i wybodaeth am anghenion a galluoedd disgyblion yn llawn.

## Briff i Ymarferwyr Creadigol

Er mwyn cynorthwyo â dewis Ymarferwyr Creadigol, mae briff i ysgolion ei ddefnyddio. Bydd eich Asiant Creadigol yn eich cynorthwyo chi i gwblhau'r briff hwn, na ddylai fod yn fwy na 2 dudalen A4. Byddwch yn gweithio gyda'ch Asiant Creadigol i nodi manylion Ymarferwyr Creadigol er mwyn anfon y briff hwn atynt.

## Dyddiad cau a dyddiad cyfweld

Os oes modd, caniatewch o leiaf bythefnos rhwng dosbarthu'r briff a'r dyddiad cau. Bydd hyn yn helpu i sicrhau bod nifer da o ddarpar Ymarferwyr Creadigol proffesiynol yn ei weld ac yn cael amser i ymateb. Dylech gynnwys dyddiad ac, os oes modd, amserlen ar gyfer cyfweliadau fel y gall Ymarferwyr Creadigol roi hyn yn eu dyddiaduron.

### Prif fath o gelfyddyd neu faes arfer creadigol

Os ydych chi'n chwilio am fath penodol o gelfyddyd neu faes arfer creadigol, defnyddiwch eirfa gyffredin, e.e. dawnsiwr, artist celf weledol, ymarferwr athroniaeth i blant, ac ati. Os nad ydych eisiau cyfyngu ar y posibiliadau ar yr adeg hon, ysgrifennwch 'ar agor i bawb'.

### Ffocws neu gwestiwn ymholi'r prosiect

Ceisiwch grynhoi eich syniadau cychwynnol ar gyfer y prosiect neu eich cwestiwn ymholi mewn brawddeg neu ddwy, gan gynnwys unrhyw grwpiau oedran, maes cwricwlwm a ffocws penodol. Y bwriad yw helpu Ymarferwyr Creadigol i benderfynu'n gyflym a ydynt yn addas ar gyfer y prosiect ac a oes ganddynt ddiddordeb ynddo.

### Pwy rydym ni'n chwilio amdano

Disgrifiwch y math o berson neu bobl yr hoffech chi weithio â nhw. Wrth gwrs, byddwch eisiau i'ch Ymarferwr Creadigol allu gweithio'n llwyddiannus gyda disgyblion a gallech gynnwys sgiliau, galluoedd, priodweddau, diddordebau a rhinweddau rydych chi'n chwilio amdanynt.

### Beth fyddwn ni'n ei gynnig

Manylion y dyddiadau dechrau a gorffen, ac, os oes modd, arweiniad ar yr ymrwymiad a fydd yn ofynnol, e.e. gweithio yn yr ysgol am ddiwrnod yr wythnos yn ystod tymor X, gyda nifer o ddiwrnodau myfyrio yn ystod tymor X.

Gwybodaeth am eich ysgol ac am gymuned yr ysgol.

Gwnewch nodyn o gyfanswm y ffi sydd ar gael. I sicrhau hyblygrwydd, defnyddiwch yr ymadrodd, 'mae hyd at £xx ar gael'. Efallai y bydd angen ichi ystyried treuliau o fewn cyfanswm y ffi sydd ar gael hefyd e.e. teithio.

Unrhyw wybodaeth ychwanegol.

### Disgrifiad byr o'r prosiect

Dyma'ch cyfle i ddisgrifio'ch syniadau cychwynnol yn fanylach. Cofiwch y byddwch chi'n treulio ychydig wythnosau cyntaf eich prosiect yn trafod, llunio a chytuno ar eich cynllun prosiect terfynol gyda'ch Ymarferydd/wyr Creadigol. Felly, ceisiwch beidio bod yn rhy orchmynnol yn eich disgrifiad a chanolbwyntiwch yn fwy ar bwyntiau cychwyn ar gyfer trafodaethau, gan gynnwys maes eich ffocws ac unrhyw ddeilliannau dysgu disgwyliedig yr ydych yn gobeithio'u cyflawni drwy'r prosiect ar gyfer disgyblion, athrawon a'r ysgol.

<table>
<tr><th colspan="4">Briff Enghreifftiol i Ymarferwr Creadigol</th></tr>
<tr><td>Enw’r Ysgol:</td><td>Xx</td><td>E-bost:</td><td></td></tr>
<tr><td>Cyfeiriad 1:</td><td>Xx</td><td>Gwefan:</td><td></td></tr>
<tr><td>Cyfeiriad 2:</td><td>Xx</td><td>Enw Cyswllt 1:</td><td>Xx (pennaeth)</td></tr>
<tr><td>Cyfeiriad 3:</td><td></td><td>Cyfeiriad e-bost Cyswllt 1:</td><td></td></tr>
<tr><td>Cod post:</td><td></td><td>Enw Cyswllt 2:</td><td>Xx (Cydlynydd Ysgol)</td></tr>
<tr><td>Ffôn:</td><td></td><td>Cyfeiriad e-bost Cyswllt 2:</td><td></td></tr>
<tr><td colspan="2">Dyddiad cau</td><td colspan="2">Dyddiad cyfweld</td></tr>
<tr><td colspan="2">12:30pm ar 14 Tachwedd 2020</td><td colspan="2">Rhwng 9:30 a 12:30 ar 18 Rhagfyr 2020</td></tr>
<tr><td colspan="4">Prif faes celf/maes arfer sy’n ofynnol</td></tr>
<tr><td colspan="4">Croesewir ceisiadau gan ymarferwyr o unrhyw ddisgyblaeth greadigol.</td></tr>
<tr><td colspan="4">Ffocws neu gwestiwn ymholi’r prosiect</td></tr>
<tr><td colspan="4">Hoffai XX archwilio sut i ddefnyddio’r amgylchedd awyr agored yn well fel adnodd ar gyfer addysgu a dysgu creadigol mewn llythrennedd, yn enwedig ym mlynyddoedd 3 a 4 gyda bechgyn.</td></tr>
<tr><td colspan="2">Pwy rydym ni’n chwilio amdano:</td><td colspan="2">Beth fyddwn ni’n ei gynnig:</td></tr>
<tr><td colspan="2">Rydym yn chwilio am bartner a all gydweithredu, hwyluso a galluogi. Rhywun sy’n ysgogi eraill i ddangos eu creadigrwydd a helpu i feithrin amgylchedd cefnogol lle mae pawb sy’n cymryd rhan yn teimlo’u bod yn cael eu cefnogi a’u hymrymuso i arbrofi â syniadau ac ymagweddau newydd.<br>Unigolyn hyblyg sydd â’r gallu i weithio mewn partneriaeth (rhannu gwneud penderfyniadau a hwyluso profiad ymarferol), myfyrio ar a mynegi’r dysgu sydd wedi datblygu drwy’r prosiect a gallu ei ledaenu ar draws yr ysgol a’i chymuned ehangach. Mae angen i ymarferwyr fod yn barod i weithio gyda dosbarthiadau cyfan.</td><td colspan="2">Rydym yn rhagweld contract o ddiwrnod yr wythnos o Ionawr 2021 i Fehefin 2021. Gellir trafod hyn a chytuno arno gyda’r ymgeisydd llwyddiannus.<br><br>Mae hyd at £xx ar gael ar gyfer y gwaith hwn. Mae hyn yn cynnwys costau teithio / Ni fyddwn yn darparu costau teithio.<br><br>Mae Ysgol XX yn ysgol gymuned wledig mewn ardal o gryn anfantais yng Nghymru. Daw ein plant o amrywiaeth eang o gefndiroedd ethnig ac ieithyddol. Mae Saesneg yn iaith ychwanegol i fwy na 10% o’n disgyblion. Rydym yn cynnwys rhieni a’r gymuned ysgol ym mhob agwedd ar fywyd yr ysgol yn llwyddiannus iawn. Rydym ar ddechrau ein taith fel Ysgol Greadigol Arweiniol.</td></tr>
</table>

| Disgrifiad byr o’r prosiect |
| --- |
| Hoffai XX archwilio sut i ddefnyddio’r amgylchedd awyr agored yn well fel adnodd ar gyfer addysgu a dysgu creadigol mewn llythrennedd, yn enwedig ym mlynyddoedd 3 a 4 gyda bechgyn. Mae llythrennedd yn flaenoriaeth allweddol yng nghynllun datblygu’r ysgol. Bu gwelliant yr ysgol yn araf dros y ddwy flynedd ddiwethaf a theimlwn fod angen i ni ddatblygu sgiliau creadigol ein dysgwyr a’n hathrawon a dod o hyd i ymagweddau creadigol newydd at addysgu a dysgu i gefnogi gwelliannau o ran cyrhaeddiad mewn llythrennedd. Bydd cyfarfodydd cynllunio pellach gyda’n dewis Artist/Ymarferwr Creadigol yn mireinio a rhoi ffocws i’n syniadau cychwynnol ac yn ategu cynllunio manylach. |

## Llunio rhestr fer a chyfweld â darpar Ymarferwyr Creadigol

Wrth reswm, yn ystod y cyfweliad, byddwch eisiau dysgu cymaint ag y gallwch am y darpar Ymarferwr Creadigol. Hefyd, mae angen i chi ystyried beth sy’n broses dderbyniol ar gyfer yr unigolyn. Rydym yn gobeithio y bydd y canllawiau hyn yn helpu i chi ddod o hyd i’r unigolyn/unigolion cywir a gwneud yn siŵr ei bod yn broses ddiddorol, bleserus a pharchus i chi a’r Ymarferwyr Creadigol.

Rôl yr Asiant Creadigol yw eich cefnogi chi yn ystod y broses ddewis, ond nid ei chyflawni ar eich rhan. Gall gynnig profiad a gwybodaeth i chi yn ystod y broses o lunio rhestr fer a chyfweld, ond ni ddylid dibynnu arnynt i drefnu’r broses ar eich rhan chi; mae angen i’r ysgol gymryd cyfrifoldeb am hynny.

### Llunio rhestr fer

Gwnewch yn siŵr eich bod yn cydnabod derbyn cais. Byddai ateb syml drwy’r e-bost gyda “Dyma gadarnhau bod eich cais wedi cyrraedd” yn y blwch pwnc yn ddigonol.

Wedi i chi lunio rhestr fer, sicrhewch eich bod chi’n rhoi gwybod i’r ymgeiswyr aflwyddiannus ar unwaith. Os cawsoch nifer fawr o geisiadau, byddai neges e-bost syml, gyffredinol yn iawn. Mae cynnig cyfle i Ymarferwyr Creadigol aflwyddiannus gael adborth am y rhesymau dros eu diffyg llwyddiant yn arfer da. Gwnewch yn siŵr eich bod chi’n cadw cofnodion yn ystod y broses o lunio rhestr fer, fel y gallwch gynnig 1 neu 2 ddarn o adborth i bob ymgeisydd os gofynnant amdano.

### Cyfweld

Mae hyn yn ymwneud â chreu partneriaeth gydradd rhwng yr ysgol a phartneriaid allanol, felly dylai’r broses gyfweld ganiatáu i’r Ymarferwr Creadigol gyfweld â chi cymaint ag yr ydych chi’n cyfweld â nhw.

Yn gyffredinol, nid yw Ymarferwyr Creadigol yn cael eu talu i fynychu na chymryd rhan mewn cyfweliadau. Cyfweliadau wyneb yn wyneb sydd orau ar y cyfan, ond gallai amser teithio, cost ac argaeledd olygu efallai fod angen ystyried dulliau digidol eraill, fel cyfweliadau ar Skype. Yn gyffredinol, dylech geisio cadw'r cyfweliad i ryw awr ar y mwyaf.

Mae'n bosibl mai rhan allweddol o'r broses gyfweld fydd gweld a all yr ymgeisydd gyfathrebu'n dda â disgyblion a staff. Heb os, y cyfweliadau mwyaf llwyddiannus yw'r rhai pan fydd Ymarferwyr Creadigol wedi cael eu cyfweld gan ddisgyblion a myfyrwyr, neu pan ofynnir i'r Ymarferwyr Creadigol gael sgwrs gyda nhw. Gall hyn fod yn llawer mwy dadlennol na gofyn iddynt gyflwyno gweithdy creadigol 15 munud gyda disgyblion. Beth ydych chi'n chwilio amdano? A yw'r ymgeisydd yn gallu cyfathrebu ac uniaethu â disgyblion a staff, neu a yw'n gallu cael plant i gynllunio dawns neu wneud pili-pala allan o weiar mewn 15 munud?

Mae'n werth trafod ffioedd yn y cyfweliad fel bod yr hyn sy'n cael ei gynnig, beth ellir ei drafod a beth na ellir ei drafod, yn glir.

Yn olaf, wedi i chi ddewis eich Ymarferydd/wyr Creadigol llwyddiannus, sicrhewch eich bod chi'n rhoi gwybod i'r ymgeiswyr aflwyddiannus o fewn 24 awr. Ar yr adeg hon, mae rhoi adborth llafar i ymgeisydd ynghylch pam nad oedd yn llwyddiannus yn arfer da.

## Cyfrifoldebau cyfreithiol

### Diogelu plant a phobl ifanc

Mae rhaglen Ysgolion Creadigol Arweiniol yn ymroi i ddiogelu pob plentyn a pherson ifanc ac mae o'r farn bod diogelwch y plentyn neu'r person ifanc o'r pwys mwyaf. Ni all yr un rhaglen, gan gynnwys Ysgolion Creadigol Arweiniol, sicrhau diogelwch plant a phobl ifanc yn llwyr; fodd bynnag, mae gennym bolisïau a gweithdrefnau cadarn ar waith.

Mae Cyngor Celfyddydau Cymru hefyd yn cydnabod y gall dilyn gweithdrefnau neu drefniadau ein partneriaid fod yn briodol weithiau, wrth weithio mewn partneriaeth, os yw'r rheiny'n cynnig mwy o amddiffyniad.

### Polisïau a gweithdrefnau

Bydd gan eich ysgol ei pholisi a'i gweithdrefnau amddiffyn plant ei hun, neu bydd yn dilyn rhai'r awdurdod lleol neu'r Consortiwm Addysg Rhanbarthol. Pa bolisi a gweithdrefnau bynnag rydych chi'n cytuno i'w defnyddio, gwnewch yn siŵr eich bod yn cynnig yr amddiffyniad mwyaf posibl i blant a phobl ifanc, a bod y penderfyniad yn cael ei gofnodi'n ffurfiol.

## Gwiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd ar Asiantwyr Creadigol

Fel contractwr Asiantwyr Creadigol, bydd Cyngor Celfyddydau Cymru yn cynnal gwiriadau manwl y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd ar bob Asiant Creadigol cyn iddynt gael eu contractio. Ni fyddant yn contractio ag unrhyw un a allai, yn eu barn nhw, beri risg neu fygythiad i ddiogelwch disgyblion.

## Gwiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd ar Ymarferwyr Creadigol

Fel contractwr Ymarferwyr Creadigol, mae Ysgolion Creadigol Arweiniol yn gyfrifol am gynnal gwiriadau manwl y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd ar Ymarferwyr Creadigol cyn iddynt gael eu contractio ac yn unol â'u gweithdrefnau arferol.

Fodd bynnag, os oes problem gyda gwiriad y GDG ar Ymarferwr Creadigol (e.e. mae trosedd wedi'i gofnodi arno), dylech drafod hyn gyda'ch Arweinydd Prosiect Ysgolion Creadigol Arweiniol ar unwaith, i gytuno ar y dull gweithredu gorau. Bydd y drafodaeth hon yn cael ei chynnal dim ond gyda'r Arweinydd Prosiect sydd wedi'i awdurdodi i weld tystysgrifau'r GDG fel rhan o'i ddyletswyddau, a bydd yn gyfrinachol. Sicrhewch eich bod yn rhoi gwybod i Ymarferwyr Creadigol am y broses hon yn ystod camau cynllunio cychwynnol.

## Cynllunio a chyflwyno prosiect

Sicrhewch nad ydych chi byth yn gadael Asiantwyr Creadigol nac Ymarferwyr Creadigol ar eu pen eu hunain gyda disgybl unigol, hyd yn oed am gyfnod byr. Pan fyddwch chi'n cynllunio'ch rhaglen, sicrhewch fod o leiaf un aelod staff yn bresennol yn ystod pob gweithgarwch Ysgolion Creadigol Arweiniol. Bydd hyn nid yn unig yn amddiffyn eich disgyblion, ond yr Ymarferwyr Creadigol hefyd.

Gallai fod yn ddefnyddiol yn ystod cyfarfodydd cynllunio i chi gytuno ar rolau a chyfrifoldebau'r aelod staff a'r Ymarferwr Creadigol yn ystod gweithgareddau, yn enwedig yn gysylltiedig â safonau ymddygiad a disgyblaeth. Gallai Ymarferwyr Creadigol fod â throthwyon gwahanol ar gyfer safonau ymddygiad ac, er y gall hyn fod yn beth da, lles eich disgyblion sydd o'r pwys mwyaf.

## Sgyrsiau gwerthuso

Gwnewch yn siŵr eich bod yn annog arferion gweithio diogel yn ystod y sgyrsiau gwerthuso terfynol rhwng eich disgyblion a'r Asiant Creadigol. I sicrhau bod disgyblion yn teimlo'u bod yn gallu siarad yn rhydd, cynghorir cynnal y sgyrsiau hyn heb i unrhyw rai o'r athrawon a oedd yn rhan o'r prosiect fod yn bresennol. Gallai aelod staff arall fod yn yr ystafell neu, os byddwch chi a'r Asiant Creadigol yn hapus, nid oes rhaid i unrhyw oedolion eraill fod yn bresennol.

Os byddwch chi'n dilyn yr ail drywydd, awgrymwn eich bod chi'n dilyn y canllawiau hyn:

- sicrhewch eich bod wedi cofnodi hyn fel ffordd o weithio a bod aelodau staff eraill yn gwybod pryd a ble mae'r sgwrs yn cael ei chynnal;
- gwnewch yn siŵr bod y disgyblion yn hapus i'r sgwrs ddigwydd heb i unrhyw oedolion heblaw am yr Asiant Creadigol fod yn bresennol;
- sicrhewch fod mwy nag un plentyn yn yr ystafell bob amser;
- peidiwch â gadael yr ystafell hyd nes bod y grŵp cyfan yno;
- cytunwch â'r Asiant Creadigol ar ba mor hir bydd y sgwrs yn para ac ewch yn ôl at y grŵp ar yr amser y cytunoch arno; ac
- anogwch yr Asiant Creadigol i feddwl sut y gallai eraill gamddehongli eu harfer; er enghraifft, dylent osgoi gweithio mewn corneli tawel neu gyda bleindiau dros y ffenestri yn ddiangen.

### Adrodd a chyfeirio

Os bydd pryder gan athro neu aelod staff arall am Ymarferwr Creadigol, Asiant Creadigol neu aelod o dîm Ysgolion Creadigol Arweiniol, dylent ddilyn gweithdrefnau'r ysgol neu'r awdurdod lleol ar gyfer adrodd am hynny. Fodd bynnag, byddem yn cynghori'r ysgol i roi gwybod am ei phryder i Reolwr y Rhaglen Dysgu Creadigol drwy'r Celfyddydau yng Nghyngor Celfyddydau Cymru hefyd.

## Ffotograffau a chaniatâd

Os byddwch chi'n dymuno tynnu ffotograffau neu wneud fideos o ddisgyblion yn cymryd rhan mewn prosiectau Ysgolion Creadigol Arweiniol, rhaid bod gennych ganiatâd gan eu rhieni neu eu gwarcheidwaid cyfreithiol. Dylech ddilyn polisïau a gweithdrefnau'ch ysgol ar gyfer gwneud hyn.

Mae'n bosibl y bydd Cyngor Celfyddydau Cymru eisiau defnyddio'r delweddau hyn i hyrwyddo eu gwaith, felly bydd angen eich caniatâd arnynt i wneud hynny. Yn fras, byddant angen i chi ddatgan yn ysgrifenedig:

- eich bod wedi cael caniatâd gan y rhieni neu'r gofalwyr cyfreithiol i gael y delweddau hyn; ac

- rydych chi'n rhoi caniatâd i Gyngor Celfyddydau Cymru ddefnyddio'r delweddau at eu dibenion nhw.

Mae'n bosibl y bydd Cyngor Celfyddydau Cymru eisiau defnyddio'r delweddau at fwy nag un diben a/neu gadw copi o'r delweddau am gyfnod. Dylai'r wybodaeth hon gael ei chofnodi ar unrhyw ffurflenni y maent yn gofyn i chi eu llofnodi. Mae'n arfer da na ddylai'r caniatâd bara am fwy na dwy flynedd.

Ni ddylech roi caniatâd ar gyfer unrhyw ddefnydd sy'n mynd yn groes i'r caniatâd rydych chi wedi'i gael gan rieni neu ofalwyr. Er enghraifft, os yw ffurflen ganiatâd eich ysgol yn gofyn am ganiatâd i ddefnyddio delweddau o bobl ifanc am un flwyddyn academaidd, dylech roi caniatâd i Gyngor Celfyddydau Cymru ddefnyddio'r delweddau hynny yn ystod y flwyddyn honno yn unig. Os bydd ffurflen ganiatâd eich ysgol yn gofyn am ganiatâd i ddefnyddio delweddau mewn cyhoeddiadau neu daflenni, ni ddylech roi caniatâd i Gyngor Celfyddydau Cymru ddefnyddio'r delweddau hynny ar eu baneri neu eu gwefan. Os bydd Cyngor Celfyddydau Cymru eisiau defnyddio'r delweddau mewn ffyrdd nad yw eich ffurflen ganiatâd wreiddiol yn eu cynnwys, bydd angen i chi gael caniatâd pellach gan rieni a gofalwyr cyn cytuno i'r defnydd hwn.

Ystyriwch yn ofalus oblygiadau rhoi caniatâd i ddelweddau gael eu rhoi ar wefannau a safleoedd rhwydweithio cymdeithasol eraill. Gwnewch yn siŵr bod rhieni neu ofalwyr yn ymwybodol o ganlyniadau posibl defnyddio'r cyfryngau hyn.

Mae'n bosibl y bydd Cyngor Celfyddydau Cymru eisiau tynnu eu lluniau eu hunain o bobl ifanc yn cymryd rhan mewn prosiectau Ysgolion Creadigol Arweiniol. Bydd arnynt angen eich caniatâd chi i wneud hynny, a bydd yr arweiniad uchod yn berthnasol. Sicrhewch nad yw'r ffotograffydd byth yn cael ei adael ar ei ben ei hun/ar ei phen ei hun gyda'r bobl ifanc, a bod aelod staff yn ei oruchwylio/goruchwylio ar bob adeg.

## Iechyd a diogelwch, ac asesu risg

Mae pob ysgol yn gyfrifol am sicrhau bod gweithwyr proffesiynol creadigol sy'n ymwneud â'r rhaglen yn cael gwybod am weithdrefnau iechyd a diogelwch yr ysgol a'u bod yn gweithio yn unol ag arferion sydd wedi'u sefydlu.

Dylid cynnal unrhyw asesiadau risg angenrheidiol trwy ymgynghoriad rhwng athrawon ac Ymarferwyr Creadigol yn ystod cam cynllunio prosiectau.

## Cwynion

Os hoffech wneud cwyn mewn perthynas â chymryd rhan yn y Cynllun Ysgolion Creadigol Arweiniol, cyfeiriwch at wefan Cyngor Celfyddydau Cymru, lle y cewch y Weithdrefn Gwyno.

## Rhannu gwybodaeth

Mae rhannu dysgu a deilliannau eich prosiectau yn rhan bwysig o'ch gwaith fel Ysgol Greadigol Arweiniol a bydd gennych amrywiaeth o gyfleoedd i ddathlu a rhannu'r hyn rydych chi wedi'i ddysgu.

Mae pobl sy'n angerddol ynghylch pa mor bwysig yw hi bod creadigrwydd yn ganolog i addysg, yn aml yn ystyried eu bod yn rhan o fudiad. Mae'r mudiad hwnnw yn tyfu ac yn ffynnu trwy rannu gwybodaeth.

Bydd pwy fyddwch chi'n dweud wrthynt am eich gwaith a sut byddwch chi'n gwneud hynny yn dibynnu ar sawl ffactor, gan gynnwys eich partneriaethau a ffocws eich gwaith prosiect. Efallai byddwch chi a'ch cydweithwyr eisiau rhannu eich canfyddiadau mewn cyfarfodydd penaethiaid, mewn grwpiau rhwydweithio neu mewn digwyddiadau lleol neu ranbarthol. I ddatblygu eich dysgu ymhellach, cewch gyfle i gymryd rhan mewn cyfarfodydd rhwydwaith Ysgolion Creadigol Arweiniol, lle y gallwch gysylltu ag ysgolion a phartneriaid allanol eraill. Mae'n bosibl y bydd diddordeb mawr gan rieni glywed am eich gwaith. Gallai disgyblion rannu eu gwaith gyda disgyblion eraill mewn ysgolion eraill.

Gallech ddefnyddio'ch prosiect fel sail ar gyfer gwaith astudio arall rydych chi'n ei wneud. Er enghraifft, mae rhai athrawon wedi defnyddio'u prosiectau fel rhan o Radd Meistr.

Un o'r cyfryngau allweddol ar gyfer rhannu eich gwaith fydd trwy'r Parth Dysgu Creadigol ar Hwb. Bydd Arweinwyr Prosiect Ysgolion Creadigol Arweiniol yn eich annog chi i gyfrannu at y cynnwys ac i rannu eich gwaith ar Hwb.

## Rhoi cyhoeddusrwydd i'ch gwaith fel Ysgol Greadigol Arweiniol

### Cysylltiadau cyhoeddus a marchnata

Wrth hyrwyddo eich prosiect trwy gyfryngau lleol a rhwydweithiau eraill, mae rhai pethau mae'n rhaid i chi eu gwneud a rhai pethau y gallech fod eisiau eu gwneud.

Pethau mae'n rhaid i chi eu gwneud

- Defnyddiwch logo'r Ysgolion Creadigol Arweiniol ar wefan eich ysgol a gwefannau eraill lle'r ydych chi'n hyrwyddo'ch prosiect;
- Defnyddiwch logo'r Ysgolion Creadigol Arweiniol ar bob deunydd ysgrifenedig, gan gynnwys llythyron;

- cyfeiriwch at ganllawiau hunaniaeth weledol Ysgolion Creadigol Arweiniol wrth ddefnyddio'r logo;

- darparwch wybodaeth i'ch Arweinydd Prosiect Ysgolion Creadigol Arweiniol am eich prosiect – e.e. testun, lluniau a dyfyniadau. Bydd eich Arweinydd Prosiect yn rhoi gwybod i chi beth maent ei angen, e.e. maint a fformat delweddau;

- gwnewch yn siŵr bod gennych y caniatâd cywir i ddefnyddio'r delweddau. Mae gwybodaeth am hyn yn ddiweddarach yn y llawlyfr. Os nad ydych yn siŵr ynghylch a roddwyd caniatâd, peidiwch â defnyddio'r delweddau; a

- defnyddiwch ddisgrifiad safonol yr Ysgolion Creadigol Arweiniol wrth ohebu â'r cyfryngau.

### Disgrifiad safonol

Mae'r Cynllun Ysgolion Creadigol Arweiniol yn rhoi cyfleoedd i ysgolion archwilio ymagweddau creadigol newydd a chyffrous at addysgu a dysgu ar draws y cwricwlwm, gan eu cynorthwyo i fynd i'r afael â phroblemau, blaenoriaethau datblygu pwysig ac anghenion dysgwyr. Ei nod yw datblygu creadigrwydd, dyheadau a llwyddiannau pobl ifanc yng Nghymru, gan agor mwy o gyfleoedd at eu dyfodol. Mae'n cefnogi arloesedd a datblygiad partneriaethau hirdymor rhwng ysgolion a gweithwyr proffesiynol creadigol.

Ariennir y Cynllun Ysgolion Creadigol gan Lywodraeth Cymru a Chyngor Celfyddydau Cymru.

I gael rhagor o wybodaeth, ewch i www.celf.cymru

### Pethau y gallech fod eisiau eu gwneud

- gwahoddwch bobl i gofrestru ar-lein ar gyfer e-Fwletin yr Ysgolion Creadigol Arweiniol i dderbyn diweddariadau rheolaidd drwy e-bost am y cynllun;

- dywedwch wrth bawb yn eich ysgol am eich gwaith prosiect;

- siaradwch â'r wasg, y radio a'r teledu lleol;

- ysgrifennwch am eich prosiect ar wefannau neu mewn taflenni newyddion. Chwiliwch am gyfleoedd yn eich ysgol, eich awdurdod lleol ac yn eich cymuned leol; a

- chymerwch ran mewn digwyddiadau lleol.

## Brandio ac arddull tŷ

Defnyddiwch y canllawiau canlynol wrth ysgrifennu adroddiadau neu ddogfennau eraill yn gysylltiedig â'ch gwaith Ysgolion Creadigol Arweiniol.

Crëwch eich adroddiadau gan ddefnyddio Microsoft Word (addas ar gyfer PC) ar bapur gwyn A4 fel y bydd eich dogfen yn hawdd ei hargraffu ar amrywiaeth o argraffyddion.

Defnyddiwch ffont clir ym mhob adroddiad. Rydym yn argymell ffont FS Me. Dylai maint y ffont fod yn 12 pwynt o leiaf, bob amser, yn unol â chanllawiau'r RNIB. Gallai penawdau lluniau ymddangos ar ffurf 10 pwynt. Gall penawdau fod yn fwy o faint, e.e. 14 pwynt.

Peidiwch â:

- defnyddio effeithiau ar y teip, e.e. cysgodion ac amlinellu testun;
- tanlinellu testun;
- rhoi penawdau neu ddarnau o destun mewn priflythrennau neu deip italig; a
- defnyddio graddio llorweddol i gywasgu'r testun.

### Canllawiau ar gyfer y logo

Pan fyddwch chi'n cynhyrchu deunyddiau gweledol ar-lein neu ar ffurf copi caled, rhaid i chi ddefnyddio logo'r Ysgolion Creadigol Arweiniol. Gallwch lawrlwytho amrywiol fersiynau o'r logo o: https://arts.wales/cy/node/639

Wrth ddefnyddio Logo'r Ysgolion Creadigol Arweiniol, rhaid i chi gyfeirio at ein canllawiau hunaniaeth weledol, sydd ar gael i'w lawrlwytho o: https://arts.wales/cy/node/639

I gael rhagor o wybodaeth am frandio, cysylltwch â'ch Arweinydd Prosiect Ysgolion Creadigol Arweiniol.

## Hawliau eiddo deallusol

Mae hawliau eiddo deallusol yn gyfres o hawliau perchenogaeth cyfreithiol yn ymdrin â chynhyrchion diriaethol syniadau creadigol. Rhoddant hawliau penodol i greawdwyr neu berchenogion darnau gwaith artistig mewn perthynas â'u gwaith ac fe'u defnyddir i atal pobl eraill rhag:

- copïo gwaith heb ganiatâd (hawlfraint);

- defnyddio enw, delwedd neu briodwedd nodedig arall sy'n diffinio gwaith arall (hawliau nod masnach); a

- chopïo rhywbeth unigryw sydd wedi'i ddyfeisio (hawliau patent).

Mae'r Cynllun Ysgolion Creadigol Arweiniol yn cynhyrchu eiddo deallusol ar ffurf gwaith celf, llenyddiaeth, ffilmiau, ffotograffau a ffurfiau celf weledol eraill. Yr hawl eiddo deallusol mwyaf cyffredin mewn perthynas â darnau gwaith o'r fath fydd hawlfraint er, o dan rai amgylchiadau, gallai hawliau nod masnach fod yn berthnasol.

O dan delerau cytundebau'r grantiau Ysgolion Creadigol Arweiniol, deiliaid grant sy'n berchen ar holl hawliau eiddo deallusol pob gwaith sy'n cael ei gynhyrchu. Fodd bynnag, yn ôl y gyfraith, awdur darn o waith yw perchennog cyntaf unrhyw hawliau eiddo deallusol yn gyffredinol. Nid yw nodi pwy yw awduron y gwaith bob amser yn dasg hawdd mewn prosiect cymhleth a all fod â llawer o gyfranwyr, gan gynnwys plant.

Bydd a yw eich ysgol yn gallu bod yn berchen ar hawliau eiddo deallusol yn dibynnu ar sut caiff yr ysgol ei llywodraethu. Efallai mai'r awdurdod lleol fydd perchennog yr hawliau eiddo deallusol yn y pen draw, felly rhaid i chi wirio'r cytundebau lleol ynghylch eich hawl i fod yn berchen ar eiddo deallusol a manteisio arno.

Yn ogystal, mae'n bosibl y bydd Ymarferwyr Creadigol profiadol sy'n gweithio gyda'ch ysgol yn dymuno cadw'r hawliau eiddo deallusol yn eu gwaith. Mae hyn yn fater i chi gytuno arno'n lleol a byddem yn awgrymu eich bod yn trafod ac yn cytuno ar hyn cyn gynted â phosibl.

Y cyfan yr ydym yn ei ofyn yw eich bod chi'n arddangos logo'r Ysgolion Creadigol Arweiniol (gweler y 'Canllawiau ar gyfer y logo', uchod) a chydnabod eich bod wedi cymryd rhan yn hyn trwy ddefnyddio'r arweiniad hwn.

# Adran 4: Diffiniadau

Cydnabyddwn fod llawer o wahanol ddiffiniadau o'r termau a ddefnyddiwn yn rheolaidd yn llenyddiaeth y Cynllun Ysgolion Creadigol Arweiniol. Fodd bynnag, teimlwn ei bod hi'n ddefnyddiol i'r holl bartneriaid sy'n gysylltiedig ein bod ni'n rhannu ein safbwyntiau ar yr hyn a olygwn wrth y termau hyn, yn y gobaith y bydd yn cefnogi gwell dealltwriaeth a thrafodaethau parhaus rhwng y partneriaid dan sylw.

## Creadigrwydd

### Pam Creadigrwydd?

Rydym yn gwybod yn y byd sydd ohoni y bydd addysg yn datblygu fwyfwy i fod yn sail i gymdeithas greadigol, economi greadigol a diwylliant creadigol. Bydd creadigrwydd, neu fod yn agored i gaffael gwybodaeth newydd a sgiliau arloesol, yn ffurfio ein byd yn fwy nag unrhyw rym arall y gellid ei ddychmygu. Yn ei adolygiad annibynnol o'r cwricwlwm a'r trefniadau asesu yng Nghymru, Dyfodol Llwyddiannus, galwodd yr Athro Graham Donaldson ar i'n dysgwyr fod 'yn gyfranwyr mentrus, creadigol sy'n barod i chwarae eu rhan yn llawn yn eu bywyd a'u gwaith'.

Mae creadigrwydd yn datblygu gallu person ifanc i gwestiynu a gwneud cysylltiadau, ac i ddatblygu'r gallu ar gyfer meddwl yn annibynnol ac yn feirniadol. Fe all ysbrydoli pobl ifanc trwy roi uchelgais a hyder newydd iddynt, herio tlodi o ran dyhead a thorri cylch amddifadedd a achosir gan gyflawniad addysgol isel.

Gall creadigrwydd agor y drws i addysg bellach ac addysg uwch ac, ymhen amser, gall hyd yn oed arwain at gyflogaeth i rai. Arferai byd gwaith ymwneud â diwydiant a gweithgynhyrchu; bydd busnesau allweddol y dyfodol yn gynyddol ym meysydd cyfathrebu, gwybodaeth, adloniant, gwyddoniaeth a thechnoleg. Mae angen llawer o ddychymyg creadigol a gweledigaeth entrepreneuraidd ar y rhain i gyd – nodweddion y mae'r celfyddydau mewn sefyllfa ddelfrydol i'w meithrin a'u hybu.

Ond er mwyn i'r fath greadigrwydd ffynnu, mae angen i ni nid yn unig gydnabod pwysigrwydd y celfyddydau ond hefyd datblygu seilweithiau, rhaglenni a ffyrdd o weithio sy'n rhoi'r celfyddydau wrth wraidd ein system addysg.

Mae'r Cynllun Ysgolion Creadigol Arweiniol yn cynnig cymorth i athrawon ledled Cymru er mwyn iddynt ddatblygu ymagweddau creadigol at addysgu a dysgu trwy raglen ddwys sy'n defnyddio sgiliau Ymarferwyr Creadigol a fydd, dros gyfnod, yn gweithio'n agos gydag athrawon, dysgwyr ac ysgolion.

### Beth a olygwn wrth "greadigrwydd"?

Mae llwyddiant Ysgolion Creadigol Arweiniol yn dibynnu ar hyrwyddo'r ffurfiau ar greadigrwydd y mae tystiolaeth yn awgrymu eu bod wedi arwain at fuddion addysgol cadarnhaol.

Felly, defnyddiwn ddiffiniad a ddatblygwyd gan Guy Claxton, Bill Lucas ac Ellen Spencer o'r Ganolfan Dysgu ar gyfer y Byd Go Iawn ym Mhrifysgol Caer-wynt. Canolbwyntiodd eu gwaith ar yr angen i ddatblygu iaith greadigrwydd yr oedd athrawon a disgyblion yn ei hadnabod, ei gwerthfawrogi ac yn gyfforddus wrth ei defnyddio. Profwyd yr eirfa a ddatblygwyd gydag athrawon ac mewn ystafelloedd dosbarth. Cadarnhaodd athrawon fod yr 'arferion meddwl creadigol', fel y'u diffiniwyd gan Claxton et al, yn bwysig wrth ddysgu ac yn rhwydd eu hadnabod.

Caiff y pum arfer meddwl creadigol a'u his-arferion eu diffinio fel a ganlyn:

| | |
|---|---|
| **1. Chwilfrydig** | Dyfalu a Chwestiynu<br>Archwilio ac Ymchwilio<br>Herio tybiaethau |
| **2. Dyfal** | Goddef ansicrwydd<br>Dal ati gyda thasg anodd<br>Mentro bod yn wahanol |
| **3. Dychmygus** | Chwarae â phosibiliadau<br>Gwneud cysylltiadau<br>Defnyddio greddf |
| **4. Disgybledig** | Saernïo a Gwella<br>Datblygu technegau<br>Myfyrio'n feirniadol |
| **5. Cydweithredol** | Cydweithio'n briodol<br>Rhoi a derbyn adborth<br>Rhannu'r 'cynnyrch' |

Yn eu hanfod, mae'r diffiniadau hyn o greadigrwydd yn cydnabod gallu pob plentyn a pherson ifanc i ddatblygu eu sgiliau creadigol.

**Addysgu Creadigol – yn canolbwyntio ar yr athro**

Mae athrawon yn:

- defnyddio ymagweddau arloesol at addysgu, cyflwyno'r cwricwlwm ac asesu;
- blaenoriaethu strategaethau sy'n ennyn diddordeb dysgwyr:

- modelu creadigrwydd ac addasu eu strategaethau i fodloni anghenion dysgwyr;
- datblygu deunydd ac ymagweddau sy’n tanio diddordeb dysgwyr a’u hysgogiad i ddysgu;
- gwneud cysylltiadau trawsgwricwlaidd ac ehangach;
- canolbwyntio ar y perthnasedd i’r dysgwr ac yn cynllunio ar sail man cychwyn, cynnydd a phrofiadau dysgwr;
- cydweithio â dysgwyr a’u cynorthwyo i gymryd cyfrifoldeb am y profiadau;
- darparu gwersi cyffrous, cofiadwy a heriol;
- gwneud cynllunio a defnyddio mannau dysgu’n rhan annatod o’u proses gynllunio ac yn defnyddio gofod yn hyblyg ac yn ddychmygus;
- datblygu perthynas effeithiol rhwng yr athro a’r disgyblion;
- darparu’r lle i ddysgwyr gynllunio eu dysgu eu hunain a myfyrio ar gynnydd a’i werthuso; a
- deall a defnyddio’r “Ystafell Ddosbarth Gweithredu Lefel Uchel” a ddangosir isod.

**Beth yw nodweddion y lle?**

| Gweithredu Lefel Isel | | Gweithredu Lefel Uchel |
|---|---|---|
| Arwain | Rôl yr athro | Herio |
| Cynlluniedig | Natur gweithgareddau | Dilys |
| Seiliedig ar y gloch | Trefnu amser | Hyblyg |
| Ystafell ddosbarth | Trefnu lle | Gweithdy |
| Unigol | Ymagwedd at dasgau | Grŵp |
| Cuddiedig | Amlygrwydd prosesau | Uchel |
| Sefydlog | Lleoliad gweithgareddau | Symudol |
| Fe'i hanwybyddir | Yr hunan fel adnodd dysgu | Canolog |
| Fe'i hanwybyddir | Emosiwn | Fe'i cydnabyddir |
| Rhai | Cynwysoldeb | Pawb |
| Cyfeiriedig | Rôl y dysgwr | Hunanreoli |
| Cyfyngedig | Myfyrio | Parhaus |

Bydd hyn yn arwain at ddysgwyr sy'n dangos diddordeb, wedi'u cyffroi a'u cymell.

## Dysgu Creadigol

- ymgynghorir â disgyblion ar bob cam o'r broses gynllunio – cânt eu rhoi wrth wraidd y broses ddysgu;
- mae staff ysgol, unigolion creadigol proffesiynol a phobl ifanc yn cymryd rhan gyda'i gilydd, yn gydradd, mewn proses o ymholi dychmygus. Maent yn cydweithio, yn archwilio ac yn dysgu gyda'i gilydd. Teithiau yw prosiectau yn hytrach na chynhyrchion a ddiffiniwyd o flaen llaw;
- mae Ymarferwyr Creadigol a chanddynt ystod eang o arbenigedd – artistiaid, penseiri, dylunwyr gwe, gwyddonwyr – yn dod â safbwyntiau, syniadau a sgiliau unigryw i'r profiad dysgu;

- mae unigolion creadigol proffesiynol yn gweithio fel rhan o dîm dros gyfnod parhaus, yn hytrach na dod i gyflwyno gweithgaredd diffiniedig heb lawer o gyfranogiad gan yr athro;
- mae rhaglenni'n canolbwyntio ar ddatblygu arferion meddwl creadigol disgyblion yn ogystal â deilliannau ehangach. Gellir datblygu sgiliau artistig, ond nid dyma'r prif ddiben; ac
- mae dysgu creadigol yn gyfle i feddwl yn gyffredinol am ddiwylliannau dysgu a'r posibilrwydd o weithio gydag amrywiaeth eang o bobl yn y gymuned a thu hwnt.

Bydd hyn yn arwain at ddysgwyr hyderus, uchel eu cymhelliant, chwilfrydig, cydweithrediadol, dychmygus, gwydn, disgybledig ac effeithiol sy'n cyflawni eu potensial.

### Mae Dysgwyr Creadigol

- yn feddwl agored ac yn meddu ar agwedd ymholgar tuag at ddysgu a gwybodaeth;
- yn gallu hunanreoli ac yn eu hystyried eu hunain a'u cyfoedion yn adnoddau pwysig i gefnogi eu dysgu;
- yn codi cwestiynau, amlygu problemau ac agor llinellau ymholi;
- yn defnyddio ystod eang o arddulliau dysgu a deallusrwydd;
- yn meddu ar ystod o sgiliau meddwl sy'n eu hannog i feddwl am syniadau a phroblemau, dewis pa un i'w ddilyn, a gweithio trwyddo mewn ffordd effeithiol ac effeithlon;
- yn beirniadu eu gwaith eu hunain ac yn derbyn syniadau a beirniadaeth adeiladol gan eraill;
- yn cael y cyfle a'r ysgogiad i weithio'n adeiladol, yn unigol ac mewn timau o wahanol faint a chyfansoddiad; ac
- yn ystyried dylanwad proses, cynnyrch a chynulleidfa.

### Datblygu creadigrwydd

- Mae hyn yn canolbwyntio ar addysgu a dysgu ac mae'n:
- annog pobl ifanc i gredu yn eu hunaniaeth greadigol;

- amlygu galluoedd creadigol pobl ifanc;

- darparu cyfleoedd ymarferol i bobl ifanc fod yn greadigol a datblygu eu sgiliau creadigol; ac yn

- meithrin creadigrwydd trwy ddatblygu Arferion Meddwl Creadigol pobl ifanc.

### Addysg a dysgu seiliedig ar ymholi

Mae addysg seiliedig ar ymholi yn cynnwys dysgwyr mewn datblygu dealltwriaeth trwy eu gweithgareddau meddyliol a chorfforol eu hunain. Mae'n eu cynnwys mewn trafod, ffurfio cwestiynau, archwilio, myfyrio a gwerthuso eu dysgu eu hunain. Mae'r pwyslais ar addysgu a dysgu. Mae'n:

- annog pobl ifanc i gredu yn eu hunaniaeth greadigol;

- amlygu galluoedd creadigol pobl ifanc;

- darparu cyfleoedd ymarferol i bobl ifanc fod yn greadigol a datblygu eu sgiliau creadigol; ac

- meithrin creadigrwydd trwy ddatblygu Arferion Meddwl Creadigol pobl ifanc.

# Adran 5: Cyhoeddiadau ac adnoddau

Ceir dolenni isod i ragor o wybodaeth, gan gynnwys gwybodaeth gefndir a dogfennau defnyddiol a fu'n bwysig wrth lywio datblygiad y Cynllun Ysgolion Creadigol Arweiniol. Ceir hefyd ddolenni i ddogfennau, ymchwil, fideos ac adnoddau eraill yn ymwneud â dysgu creadigol.

### Dogfennau ac adroddiadau a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru

Dysgu Creadigol drwy'r Celfyddydau: cynllun gweithredu ar gyfer Cymru, Mawrth 2015.
https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2018-02/dysgu-creadigol-drwyr-celfyddydau-cynllun-gweithredu-ar-gyfer-cymru-2015-2020.pdf

Dyfodol Llwyddiannus: Adolygiad Annibynnol o'r Cwricwlwm a'r Trefniadau Asesu yng Nghymru, Chwefror 2015. Dolen i'r adolygiad annibynnol gan yr Athro Graham Donaldson CB.
https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2018-03/dyfodol-llwyddiannus.pdf

Y Celfyddydau mewn Addysg yn Ysgolion Cymru, Medi 2013. Dolen i'r adroddiad annibynnol gan yr Athro Dai Smith, ei ddogfennau ategol ac ymateb Llywodraeth Cymru i argymhellion yr adroddiad
https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2018-02/celfyddydau-mewn-addysg-yn-ysgolion-cymru.pdf

### Canllawiau Cwricwlwm i Gymru, Mawrth 2020.

https://hwb.gov.wales/api/storage/b0e91f7c-0050-47b6-9b23-0273d39df9f3/canllawiau-cwricwlwm-i-gymru-070220.pdf

Ysgolion Creadigol Arweiniol - Kirsty Williams AC: Cyngor Celfyddydau Cymru, Ebrill 2018.
https://www.youtube.com/watch?v=ZowN8LWI9KI

Canllawiau ar ddefnyddio'r Grant Amddifadedd Disgyblion i gefnogi gweithgarwch celfyddydol a diwylliannol, 2015.
https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2018-11/defnyddio-r-grant-amddifadedd-disgyblion-i-gefnogi-gweithgarwch-celfyddydol-a-diwylliannol.pdf

Canllawiau ar y Grant Amddifadedd Disgyblion, 2015.
https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2018-03/grant-amddifadedd-disgyblion-canllawiau-hanfodol.pdf

### Ymchwil, astudiaethau achos ac awgrymiadau defnyddiol ynglŷn ag ysgolion creadigol

CAM / STEP 3: Ysgolion Creadigol Arweiniol l Lead Creative Schools l Ysgol Y Berwyn, Jan 8, 2020
https://www.youtube.com/watch?v=p-Ob72NdQF4

CAM / STEP 3: Ysgolion Creadigol Arweiniol l Lead Creative Schools l Ysgol Gynradd Cantref, October 2019.
https://www.youtube.com/watch?v=D7BZeTeJoVs

CAM / STEP 3: Ysgolion Creadigol Arweiniol l Lead Creative Schools l Ysgol Gyfun Morriston, January 2020.
https://www.youtube.com/watch?v=IE9WiyXgrUw